



Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol

Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

Hydref 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.comffin-cymru.gov.uk

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

Hydref 2012

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE
Rhif Ffôn: +44 (0)29 20395031
Rhif Ffacs: +44 (0)29 20395250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
	Comisiwn Ffiniau i Gymru	1
	Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol	1
	Y Comisiynwyr Cynorthwyol	2
	Cynrychiolaethau Ysgrifenedig	2
	Gwrandawiadau Cyhoeddus	2
2	Trosolwg	4
	Cyflwyniad	4
	Ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol	4
	Prif Themâu	6
3	Argymhellion ar gyfer Newidiadau i'r Etholaethau Arfaethedig yng Nghymru	8
	Cyflwyniad	8
	De Ddwyrain Cymru	8
	De Orllewin Cymru	22
	Gorllewin Cymru	28
	Canolbarth a Gogledd Cymru	30
	Enwau	39
	Casgliad	43
	Atodiad A: Etholaethau Arfaethedig yn ôl Adrannau Etholiadol a Nifer Etholwyr	44
	Atodiad B: Rhestr o'r Cynrychiolaethau Ysgrifenedig	70
	Atodiad C: Bywgraffiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol	78

1. Cyflwyniad

Comisiwn Ffiniau i Gymru

- 1.1 Corff Cyhoeddus Anadrannol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Swyddfa'r Cabinet yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Comisiwn wedi'i gyfansoddi o dan Adran 2 ac Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.2 Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.3 Siaradwr Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Siaradwr yn pwysleisio annibyniaeth, amhleidioldeb a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Siaradwr yn cyfrannu o gwbl at gynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu yn y cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lloyd Jones. Yr Aelodau yw Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert M^cNabb.

Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol

- 1.4 Gwnaeth Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol yn y DU. Mae'r Ddeddf yn lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 30 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth fod â nifer tebyg o etholwyr cofrestredig (rhwng 72,810 a 80,473).
- 1.5 Ar 11 Ionawr 2012, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei Gynigion Cychwynnol. Dyma oedd dechrau'r broses ymgynghori lle y gofynnodd y Comisiwn i bobl Cymru helpu i lunio etholaethau Seneddol diwygiedig.
- 1.6 Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn ddechrau ymgynghoriad 12 wythnos ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno'u cynrychiolaethau yn ysgrifenedig neu i fynychu un o bum gwrandawriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru, neu'r ddau.
- 1.7 Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol hwn o 12 wythnos. Roedd cyfnod

statudol ychwanegol o bedair wythnos ar gael wedyn i unigolion a sefydliadau gynnig sylwadau ar y cynrychiolaethau a wnaed gan eraill.

Y Comisiynwyr Cynorthwyol

- 1.8** Mae Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni'i swyddogaethau. Penodwyd tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer Arolwg 2013 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus a rhoi adroddiad annibynnol a diduedd i'r Comisiwn ar sail cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau ac yn ysgrifenedig.
- 1.9** Ar gyfer Arolwg 2013, y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd Mr Gerard Elias Cwnsler y Frenhines, Mr Geraint Walters a Mr Clive Lewis Cwnsler y Frenhines. Mr Elias oedd y 'Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol' ac ef oedd yn cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus. Dewiswyd y Comisiynwyr Cynorthwyol drwy gystadleuaeth gyhoeddus agored. Gweler Atodiad C am fwy o wybodaeth am y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- 1.10** Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli barnau'r Comisiynwyr Cynorthwyol ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r newidiadau y mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn eu hargymell i gynigion cychwynnol y Comisiwn, a'r Comisiwn sydd i benderfynu pa un a ddylid mabwysiadu'r cyfryw newidiadau neu beidio.
- 1.11** Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi trin yr holl gynrychiolaethau yn gyfartal. Mae cynrychiolaethau a wnaed yn ysgrifenedig, yn Gymraeg neu yn Saesneg, wedi cael yr un ystyriaeth â'r cynrychiolaethau hynny a wnaed ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig

- 1.12** Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, derbyniodd y Comisiwn dros 500 o gynrychiolaethau ysgrifenedig. Rhoddir rhestr lawn o'r cynrychiolaethau yn Atodiad B.
- 1.13** Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, derbyniodd y Comisiwn 209 o gynrychiolaethau ysgrifenedig. Rhoddir rhestr lawn o'r cynrychiolaethau yn Atodiad B.

Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 1.14** Cynhaliwyd pum gwrandawriad cyhoeddus, sef yr uchafswm a ganiateir gan y ddeddfwriaeth, yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2012. Mae Tabl 1 yn dangos nifer y rhai a fynychodd pob gwrandawriad.

Tabl 1: Presenoldeb yng Ngwrandawiadau Cyhoeddus Arolwg 2013

Gwrandawriad	Siaradwyr	Gwylwyr	Cyfanswm yn Bresennol
Abertawe 15 – 16 Chwefror 2012	26	29	55
Caerdydd 22 – 23 Chwefror 2012	31	26	57
Wrecsam 29 Chwe – 1 Mawrth 2012	28	19	47
Caernarfon 7 – 8 Mawrth 2012	17	12	29
Llandrindod 20 – 21 Mawrth 2012	15	14	29

2. Trosolwg

Cyflwyniad

- 2.1** Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae'r etholaethau hynny'n cynnwys adrannau etholiadol o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn, yn unol â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati ym mhennod 1, wedi gwneud Cynigion Cychwynol ar gyfer 30 o etholaethau yng Nghymru. Nid oeddem ni, fel Comisiynwyr Cynorthwyol, yn gysylltiedig â pharatoi Cynigion Cychwynol y Comisiwn.
- 2.2** Rydym wedi ystyried y Cynigion Cychwynol a'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar a dderbyniwyd, a bwriadwn wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynigion Cychwynol. Er hwylustod, yn yr adroddiad hwn, mae'r argymhellion a wnawn yn cael eu hystyried trwy gyfeirio at bedwar rhanbarth eang, sef De Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru, Gorllewin Cymru, a Chanolbarth a Gogledd Cymru. Ymdriniwn â Chanolbarth a Gogledd Cymru gyda'i gilydd am fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr etholaethau arfaethedig yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Ar brydiau, yn yr ardaloedd eraill, mae etholaethau arfaethedig yn ymestyn dros fwy nag un rhanbarth.
- 2.3** Amlinellwn isod ein hymagwedd gyffredinol at y gorchwyl o wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynigion Cychwynol. Yna rhown drosolwg o'r prif faterion a welsom yn ystod ein hystyriaeth o'r cynrychiolaethau a wnaed ar yr etholaethau arfaethedig yng Nghymru. Wedyn, ym mhennod 3 o'r adroddiad, esboniwn sail ein hargymhellion ar gyfer newidiadau i'r Cynigion Cychwynol ar gyfer ffiniau etholaethau yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi cynnig (fel yr oedd yn ofynnol iddo wneud) enw a dynodiad ar gyfer pob un o'r etholaethau yn ei Gynigion Cychwynol. Mae cynrychiolaethau wedi'u gwneud yn awgrymu enwau gwahanol i'r rheiny a gynigiwyd gan y Comisiwn. Yn ogystal, mae rhai o'n newidiadau arfaethedig i gynigion y Comisiwn yn golygu nad yw'r enw gwreiddiol yn briodol mwyach. Byddwn yn gwneud ein hargymhellion ynglŷn ag enwau ar ôl i ni amlinellu ac esbonio ein hargymhellion ynglŷn â ffiniau etholaethau a rhoddir ein hargymhellion ynglŷn â dynodiad yn Atodiad A.

Ymagwedd y Comisiynwyr Cynorthwyol

- 2.4** Mae'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati ym mhennod 1 o'r adroddiad hwn yn esbonio'r rheolau statudol sy'n llywodraethu dosbarthiad etholaethau seneddol. Mae'r rheolau statudol sy'n llywodraethu'r arolwg cyfredol yn wahanol mewn agweddau pwysig i'r rheiny a oedd yn gymwys i arolygon

blaenorol. Yn fwyaf arwyddocaol, mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi cyflwyno gofynion ar gyfer nifer benodedig o etholaethau ac mae'n rhoi terfyn uchaf ac isaf ar nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth, ac eithrio mewn perthynas â phedair etholaeth warchoddedig sydd y tu allan i Gymru. Mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru, yn gyfreithiol, fod o fewn 5% i gwota etholiadol ar gyfer pob etholaeth. Golyga hyn fod rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gynnwys rhwng 72,810 ac 80,473 o etholwyr.

- 2.5** Bydd cymhwyso'r amrediad etholiadol statudol newydd yn mynnu newidiadau helaeth ac eang yng Nghymru. Yn amodol ar sicrhau bod pob etholaeth yn cadw o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir, mae'r ddeddfwriaeth yn amodi y gall y Comisiwn ystyried y pedwar ffactor canlynol:¹
- Ystyriaethau daearyddol arbennig gan gynnwys maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
 - Ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 6 Mai 2010;
 - Ffiniau etholaethau presennol; ac,
 - Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.
- 2.6** Yn erbyn y cefndir hwnnw, rydym wedi mynd ati, lle bynnag y bo modd, i argymhell newidiadau i'r Cynigion Cychwynnol a fydd yn ein barn ni yn sicrhau bod etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu'n well y meini prawf statudol a amlinellir uchod (tra'n sicrhau hefyd fod pob etholaeth arfaethedig yn cadw o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir, sef rhwng 72,810 ac 80,473 o etholwyr).
- 2.7** Rydym wedi darllen yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a thrawsgrifiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus, ynghyd â'r deunydd ysgrifenedig a roddwyd i'r Comisiynydd Cynorthwyol Arweiniol a staff y Comisiwn yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r nifer fawr o bobl y mae'n rhaid eu bod wedi neilltuo cryn amser ac ymdrech i baratoi eu cynrychiolaethau. Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r rheiny a ymddangosodd yn y gwrandawiadau cyhoeddus am gyflwyno'u cynrychiolaethau yn gryno, gan i hynny alluogi clywed yr holl gynrychiolaethau'n iawn tra'n cadw hefyd at y terfyn dau ddiwrnod ar gyfer pob gwrandawriad, yn unol â gofyniad y ddeddfwriaeth. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, fod y cyfyngiadau a bennir gan y ddeddfwriaeth yn golygu bod yr argymhellion a gynigiwn i'r Cynigion Cychwynnol yn annhebygol o fodloni dymuniadau pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.
- 2.8** Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ymdrin â'r hyn yr ystyriwn yw'r prif faterion a'r prif bwyntiau sydd wedi codi o'r holl gynrychiolaethau a wnaed. Nid ydym, felly, wedi gwneud sylwadau ar yr holl gynrychiolaethau a gafodd eu gwneud,

¹ Mae Atodlen 2 yn rhestru pumed ffactor nad yw'n gymwys i arolwg 2013 ond a fydd yn gymwys i arolygon dilynol: '(e) yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg'.

ond rydym serch hynny wedi ystyried pob un o'r cynrychiolaethau wrth lunio'n casgliadau a gwneud ein hargymhellion.

Prif Themâu

- 2.9** Mae'r prif themâu sy'n codi yn ein barn ni o'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd, fel a ganlyn.
- 2.10** Yn gyntaf, bu pryder ynglŷn â'r cynigion ar gyfer etholaethau yn Ne Ddwyrain Cymru. Bu pryder nad oes gan un awdurdod unedol, sef Caerffili, yr un etholaeth sy'n gyfan gwbl o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau fod y Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau presennol o fewn ardal awdurdod unedol Caerdydd wedi creu mwy o darfu na'r angen. Mae pryder wedi bod ynglŷn ag etholaeth arfaethedig Newport West and Sirhowy Valley sy'n ymestyn o Aber Afon Hafren i fyny at gymoedd De Cymru. Mynegwyd pryderon cryf ynglŷn â'r Cynigion Cychwynnol gan y rheiny sy'n byw yn etholaeth bresennol Cynon Valley. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn golygu bod adrannau etholiadol o'r etholaeth bresennol yn cael eu cynnwys gyda thair etholaeth arfaethedig arall, sef Pontypridd, Rhondda, ac etholaeth Heads of the Valleys. Roedd cryn nifer o gynrychiolaethau yn tystio i'r cysylltiadau cymunedol cryf yn bodoli yng Nghwm Cynon yn gyfan gwbl, neu o fewn rhannau o'r Cwm, a fyddai'n cael eu torri gan y Cynigion Cychwynnol.
- 2.11** Yn ail, mewn perthynas â De Orllewin Cymru, bu pryder ynglŷn ag union gyfansoddiad etholaethau arfaethedig Llanelli, Gower and Swansea West, a Swansea East. Yn benodol, roedd pryder ynglŷn â chynnwys Llŵchwr Isaf, Llŵchwr Uchaf a Phontybrein yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd pryder hefyd ynglŷn â chynnwys Llangyfelach, a Phenllergaer o fewn etholaeth arfaethedig Llanelli yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Swansea East. Gwnaed cynrychiolaethau hefyd ynglŷn ag union gyfansoddiad etholaethau arfaethedig Swansea East, a Gower and Swansea West.
- 2.12** Yn drydydd, mewn perthynas â Gorllewin Cymru, roedd pryder arbennig y byddai'r cysylltiadau lleol a fodolai rhwng adran etholiadol Maenclochog a de Sir Benfro yn cael eu torri gan y Cynigion Cychwynnol, a oedd yn cynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire.
- 2.13** Yn bedwerydd, mewn perthynas â Chanolbarth a Gogledd Cymru, derbynion gryn nifer o gynrychiolaethau'n ymwneud â'r ffaith na fyddai etholaeth bresennol Montgomeryshire yn cael ei chadw, ac y byddai, o dan y Cynigion Cychwynnol, yn cael ei rhannu rhwng tair etholaeth arfaethedig, sef etholaethau arfaethedig Gwynedd, South Powys, a Glyndwr and North Powys. Derbyniom gynrychiolaethau'n ymwneud ag union ddyraniad adrannau etholiadol rhwng etholaethau arfaethedig South Powys, a Glyndwr

and North Powys a pha un a ddylai adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun, yn benodol, gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig South Powys neu etholaeth Glyndwr and North Powys. Roedd pryderon hefyd y byddai cynnwys adrannau etholiadol Rhiwabon, a Ward South Cymuned Rhiwabon yn etholaeth arfaethedig Wrexham Maelor yn torri cysylltiadau presennol gydag adrannau etholiadol sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys.

- 2.14** Yn bumed, mewn perthynas â gogledd Cymru'n unig, cafwyd cynrychiolaethau ynglŷn ag union ddyraniad adrannau etholiadol yng Ngwynedd, ac yn benodol, pa un a ddylai adrannau etholiadol Deiniolen, Penisarwaun, a Bethel gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Môn a Menai. Bu pryderon hefyd ynglŷn â chynnwys tair adran etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Codwyd pryderon hefyd y byddai cynnwys adrannau etholiadol fel Cilcain a Gwernaffield yn etholaeth arfaethedig Dee Estuary yn torri'u cysylltiadau presennol gyda'r adrannau etholiadol yn nhref Yr Wyddgrug y mae'r Cynigion Cychwynnol yn eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside.
- 2.15** Derbyniwyd cynrychiolaethau hefyd ynglŷn ag adrannau etholiadol penodol, neu grwpiau o adrannau etholiadol, heblaw am y rhai y cyfeiriwyd atynt uchod. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r holl gynrychiolaethau hynny hefyd.
- 2.16** Derbyniwyd llawer o gynrychiolaethau ynglŷn â'r enwau ar gyfer yr etholaethau arfaethedig. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymarferiad ymgynghori yn awyddus i sicrhau nad oedd hunaniaethau hanesyddol yn cael eu colli, a bod enwau etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r ardaloedd daearyddol a gynhwysir yn yr etholaeth, a'u bod yn enwau y byddai'r etholwyr yn gallu uniaethu go iawn â hwy.
- 2.17** Am y rhesymau a nodir isod, rydym wedi argymhell newidiadau, newidiadau sylweddol weithiau, i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer rhai etholaethau. Ni fyddai'n briodol yn ein barn ni, fodd bynnag, i wneud newidiadau ym mhob achos lle mynegwyd gwrthwynebiad i'r Cynigion Cychwynnol gan gofio'r angen i sicrhau bod pob etholaeth yn cadw o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir, y meini prawf statudol a'r effeithiau canlyniadol y gallai newidiadau mewn un etholaeth arfaethedig eu cael ar etholaethau arfaethedig eraill. Wrth lunio ein hargymhellion rydym wedi ceisio sicrhau, o'r cychwyn, fod yr etholaethau arfaethedig a argymhellwn yn bodloni'r amrediad etholiadol ac yn adlewyrchu'n well y meini prawf statudol y gellir eu hystyried.

3. Argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Etholaethau Arfaethedig yng Nghymru

Cyflwyniad

3.1 Er hwylustod, yn yr adroddiad hwn, mae'r argymhellion a wnawn yn cael eu hystyried trwy gyfeirio at bedwar rhanbarth eang, sef De Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru, Gorllewin Cymru, a Chanolbarth a Gogledd Cymru. Ymdriniwn â Chanolbarth a Gogledd Cymru gyda'i gilydd am fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr etholaethau arfaethedig yn yr ardaloedd hyn.

De Ddwyrain Cymru

3.2 At ddiben yr adroddiad hwn, cymerir De Ddwyrain Cymru i gynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Drefaldwyn, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, a Bro Morgannwg.

3.3 Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig 13 o etholaethau ar gyfer yr ardal hon. Rydym wedi derbyn nifer fawr o gynrychiolaethau mewn perthynas â'r etholaethau arfaethedig. Dangoswyd cefnogaeth ar gyfer nifer o'r etholaethau arfaethedig, fel etholaethau arfaethedig Vale of Glamorgan, Monmouthshire, a Torfaen. Ond cafwyd gwrthwynebiad i rai eraill. Roedd gwrthwynebiad i etholaeth arfaethedig Caerphilly and Cardiff North ynghyd â phryder nad oes yr un etholaeth wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae rhai o'r cynrychiolaethau'n awgrymu hefyd fod y Cynigion Cychwynnol wedi arwain at fwy o darfu na'r angen ar gyfer yr etholaethau yng Nghaerdydd. Cafwyd cynrychiolaethau fod etholaeth arfaethedig Newport West and Sirhowy Valley yn cyfuno ardaloedd nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau cymunedol, a'i bod yn ymestyn o Afon Hafren yn y de i'r cymoedd yn y gogledd. Mae cryn wrthwynebiad wedi bod i'r Cynigion Cychwynnol i'r graddau eu bod yn effeithio ar etholaeth bresennol Cynon Valley. Byddai'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Cynon Valley gyda 3 etholaeth wahanol. Yn ogystal, gwnaed cynrychiolaethau ynglŷn ag adrannau etholiadol unigol sydd wedi'u cynnwys o fewn yr etholaethau arfaethedig.

3.4 **Yn gryno, argymhellwn y newidiadau canlynol i'r cynigion cychwynnol:**

- (1)** **cadw etholaethau presennol Cardiff Central, Cardiff South and Penarth, a Cardiff West i raddau helaeth gyda rhai newidiadau i'r**

adrannau etholiadol sydd wedi'u cynnwys ym mhob etholaeth er mwyn sicrhau bod yr etholaethau hynny (a rhai eraill) yn cadw o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir;

- (2) cael etholaeth Caerphilly, yn cynnwys yr adrannau etholiadol a drafodir isod, a fydd wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn ardal awdurdod unedol Caerffili;**
- (3) cael etholaeth Cardiff North and West Gwent, yn cynnwys yr adrannau etholiadol a drafodir isod;**
- (4) bod yr adrannau etholiadol sy'n cynnwys Dwyrain Aberdâr, a Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed, Gogledd Aberaman, De Aberaman, a Chwmbach i gyd yn cael eu cynnwys mewn un etholaeth, sef etholaeth arfaethedig Rhondda, ac argymhellwn mai Rhondda and Aberdare fydd enw'r etholaeth;**
- (5) bod newidiadau canlyniadol i etholaethau arfaethedig Heads of the Valleys, Rhondda, a Pontypridd.**

3.5 Ystyriwn yn gyntaf etholaeth arfaethedig The Vale of Glamorgan. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig bod adran etholiadol Y Sili (o etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth) yn cael ei chynnwys gydag adrannau etholiadol etholaeth bresennol Vale of Glamorgan. Byddai hynny'n galluogi'r etholaeth arfaethedig i fodloni'r amrediad etholiadol a ganiateir. Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn yn y gwrandawliadau cyhoeddus ac mewn cynrychiolaethau ysgrifenedig (gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 33, 116, 156, 182 a 620). Rydym o'r farn mai'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth arfaethedig The Vale of Glamorgan sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol orau. Bydd yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys bob un o adrannau etholiadol etholaeth bresennol Vale of Glamorgan. Mae adran etholiadol Y Sili yn adran etholiadol briodol i'w chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig (i sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad statudol) o gofio'i chysylltiadau ag ardaloedd ym Mro Morgannwg. Mae pob un o adrannau etholiadol yr etholaeth arfaethedig o fewn un ardal awdurdod unedol. Gan roi ystyriaeth yn benodol, felly, i ffiniau'r etholaeth bresennol, a ffiniau llywodraeth leol presennol, ni argymhellwn unrhyw newidiadau i etholaeth arfaethedig The Vale of Glamorgan.

3.6 Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig etholaeth Cardiff Central and Penarth, a Cardiff East yn hytrach nag etholaethau presennol Cardiff South and Penarth, a Cardiff Central. Rydym o'r farn y byddai hyn yn tarfu mwy na'r angen ar y ddwy etholaeth bresennol. Byddem yn argymhell cadw'r etholaethau presennol gyda chyn lleied â phosibl o newidiadau er mwyn sicrhau bod y ddwy etholaeth yn cadw o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir.

3.7 Mae etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth yn cadw o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir. Fodd bynnag, ni fyddai'r etholaeth bresennol heb adran etholiadol Y Sili o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir. Argymhellwn fod adran etholiadol Adamsdown (yn etholaeth bresennol Cardiff Central) yn cael ei chynnwys mewn etholaeth yr argymhellwn y dylid ei henwi yn Cardiff South and Penarth. Byddai'r etholaeth a argymhellwn yn cynnwys yr adrannau etholiadol canlynol:

- (1) Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Rhymni, Y Sblot, Trowbridge, Cornerswell, Llandochau, Plymouth, St Augustine's a Stanwell (bob un ohonynt o fewn etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth); a
- (2) Adamsdown (yn etholaeth bresennol Cardiff Central).

3.8 Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig bod tair adran etholiadol a gynhwysir yn etholaeth bresennol Cardiff Central yn cael eu cynnwys mewn un etholaeth arfaethedig a thair mewn un arall. Yn ogystal, mae'r cynrychiolaethau a wnaed i ni yn dangos, yn ein barn ni, fod cysylltiadau cymunedol yn bodoli rhwng adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Cardiff Central a fyddai'n cael eu torri gan y Cynigion Cychwynnol sy'n rhoi'r adrannau etholiadol hyn mewn etholaethau gwahanol. Mae yna gysylltiadau rhwng adrannau etholiadol Penylan, Plasnewydd, a Chyncoed. Mae trigolion Penylan, a Chyncoed yn defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau ym Mhlasnewydd (gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 458, 466 a 512). Mae ysgolion cynradd yn gwasanaethu plant o Blasnewydd, a Phenylan (gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 476, 512, 521 a 542). Argymhellwn fod etholaeth bresennol Cardiff Central yn cael ei chadw (ond heb adran etholiadol Adamsdown). Byddai hynny'n gofyn am gynnwys adrannau etholiadol ychwanegol i sicrhau bod ein hetholaeth Cardiff Central argymelledig yn bodloni'r amrediad etholiadol a ganiateir. Argymhellwn gynnwys adrannau etholiadol Gabalfa, a'r Mynydd Bychan. Mae tystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng Gabalfa ac adrannau etholiadol yn ein hetholaeth argymelledig Cardiff Central (gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 476, 512, 546 a 575). Rydym yn cydnabod bod yna dystiolaeth fod gan adran etholiadol Y Mynydd Bychan gysylltiadau ag ardaloedd eraill (er bod tystiolaeth hefyd fod cysylltiadau ag adran etholiadol Gabalfa). Mae'n ofynnol, fodd bynnag, cynnwys adran etholiadol arall er mwyn cydymffurfio â'r amrediad etholiadol a ganiateir, ac yn gyffredinol, yn ein barn ni, Y Mynydd Bychan yw'r adran etholiadol fwyaf priodol i'w chynnwys. Argymhellwn mai Cardiff Central yw'r enw ar yr etholaeth hon. Byddai ein hetholaeth argymelledig yn cynnwys yr adrannau etholiadol canlynol:

- (1) Cathays, Cyncoed, Pentwyn, Penylan, a Phlasnewydd (y cyfan o fewn etholaeth bresennol Cardiff Central); a
- (2) Gabalfa, a'r Mynydd Bychan (yn etholaeth bresennol Cardiff North).

- 3.9** Byddai ein hetholaeth argymelledig felly'n cynnwys 5 o 6 o adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff Central, ynghyd â 2 adran etholiadol arall. Byddai'r etholaeth argymelledig yn dod o fewn ardal un awdurdod lleol, sef Dinas a Sir Caerdydd. Byddai ein hetholaeth argymelledig yn osgoi torri cysylltiadau presennol rhwng adrannau etholiadol Cyncoed, Penylan, a Phlasnewydd. Gan roi ystyriaeth, yn benodol, i ffiniau etholaeth bresennol Cardiff Central, ffiniau awdurdod lleol presennol a'r cysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y Cynigion Cychwynnol, ystyriwn fod ein hetholaeth argymelledig, Cardiff Central, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.
- 3.10** Nid ydym yn argymell unrhyw newid i etholaeth arfaethedig Cardiff West. Mae'r etholaeth arfaethedig honno'n cynnwys pob un o'r naw adran etholiadol sydd yn etholaeth bresennol Cardiff West. Er mwyn sicrhau bod yr etholaeth yn bodloni'r amrediad etholiadol, mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys adrannau etholiadol Ystum Taf, a Phont-y-clun. Er y mynegwyd cefnogaeth a gwrthwynebiad i gynnwys y ddwy adran etholiadol honno, rydym o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys er mwyn sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol.
- 3.11** Mae etholaeth arfaethedig Caerphilly and Cardiff North wedi denu cryn wrthwynebiad ar y sail, ymhlith eraill, nad oes unrhyw gymuned fuddiant rhwng yr adrannau etholiadol yng ngogledd Caerdydd a'r rheiny yng Nghaerffili (gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 48, 138 a 368.). At hynny, cafwyd beirniadaeth nad yw'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig un etholaeth sy'n cynnwys yn gyfan gwbl adrannau etholiadol o ardal awdurdod unedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- 3.12** Argymhellwn fod yna etholaeth Caerphilly. Byddai honno'n cynnwys yr adrannau etholiadol canlynol:
- (1) Cwm Aber, Bedwas, Trethomas a Machen, Hengoed, Llanbradach, Morgan Jones, Nelson, Penyrheol, St. Cattwg, St James, St. Martins, ac Ystrad Mynach (pob un ohonynt o etholaeth bresennol Caerphilly); a
 - (2) Abercarn, Crosskeys, Maesycwmmmer, Pengam, Pontllanfraith ac Ynysddu (pob un ohonynt o etholaeth bresennol Islwyn).
- 3.13** Mae 11 o'r 13 o adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Caerphilly wedi'u cynnwys yn ein hetholaeth argymelledig Caerphilly. Byddai'r etholaeth gyfan yn cynnwys adrannau etholiadol o un ardal awdurdod lleol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerphilly. Gan roi ystyriaeth, yn benodol, i ffiniau etholaeth bresennol Caerphilly a ffiniau llywodraeth leol presennol, rydym o'r farn fod yr etholaeth arfaethedig hon yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Argymhellwn mai'r enw ar yr etholaeth hon yw Caerphilly.
- 3.14** Trown wedyn at yr adrannau etholiadol o ogledd Caerdydd yr oedd y Cynigion Cychwynnol yn cynnig eu cynnwys yn etholaeth Caerphilly and Cardiff North.

Rydym wedi derbyn tystiolaeth fod cysylltiadau'n bodoli rhwng adrannau etholiadol Llanisien, Llysfaen, a Rhiwbeina. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i derbyn yn dangos, yn ein barn ni, fod yr adrannau etholiadol hyn yn rhannu ysgolion, gwasanaethau cymunedol a chysylltiadau trafnidiaeth hefyd (gweler, er enghraifft, Gynrychiolaeth 542 a'r dystiolaeth yn y gwrandawiadau cyhoeddus). Derbyniom gynrychiolaethau hefyd fod gan adrannau etholiadol Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, i'r gorllewin, a Phontpennau/Yr Hen Laneirwg i'r dwyrain, gysylltiadau agos ag adrannau etholiadol Llanisien, Llysfaen, a Rhiwbeina (gweler, er enghraifft, y dystiolaeth a roddwyd yn y gwrandawiadau cyhoeddus a Chynrychiolaeth 613). Mae pob un o'r pum adran etholiadol yn etholaeth bresennol Cardiff North. Yn ein barn ni, byddai cynnwys y pum adran etholiadol hyn mewn un etholaeth, yn hytrach na'u rhannu rhwng dwy etholaeth fel y cynigir yn y Cynigion Cychwynnol, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.

3.15 Ni fyddai'r adrannau etholiadol hynny, wrth gwrs, yn arwain at etholaeth o fewn yr amrediad etholiadol a ganiateir. Byddai angen cynnwys adrannau etholiadol eraill. Mae nifer o wrthgynigion wedi'u rhoi i ni. Rydym hefyd wedi clywed tystiolaeth fod rhai cysylltiadau rhwng ardaloedd yng ngorllewin Gwent, fel Maerun, a Graig gyda Chaerdydd (gweler y dystiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd). Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r Cynigion Cychwynnol a oedd yn cynnig cynnwys adrannau etholiadol Maerun, Graig, a Tŷ-du gydag adrannau etholiadol cyn belled i'r gogledd â Bargoed, ac Aberbargoed ac a fyddai'n creu etholaeth â chymunedau cyfunol heb unrhyw gysylltiadau nag affinedd naturiol (gweler, er enghraifft, Cynrychiolaeth 423). At ei gilydd, yn ein barn ni, yr ymagwedd y byddem ni'n ei hargymell fyddai etholaeth sy'n cyfuno pum adran etholiadol gogledd Caerdydd gydag adrannau etholiadol o orllewin Gwent. Argymhellwn yr enw Cardiff North and West Gwent ar gyfer yr etholaeth, a'i bod yn cynnwys yr adrannau etholiadol canlynol:

- (1) Llysfaen, Llanisien, Pontpennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (pob un ohonynt yn etholaeth bresennol Cardiff North);
- (2) Graig, Maerun, Tŷ-du, a Pharc Tredegar (pob un ohonynt yn etholaeth bresennol Newport West); a
- (3) Dwyrain Rhisga, a Gorllewin Rhisga (y ddwy yn etholaeth bresennol Islwyn).

3.16 Rydym yn cydnabod y gellid gwneud gwrthwynebiadau i'r etholaeth a argymhellir gennym, yn enwedig o edrych arni ar ei phen ei hun. Ond, yn ein barn ni, os rhoddir ystyriaeth i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau presennol Cardiff, Caerphilly, Islwyn, a Newport West, mae ein hetholaethau argymelledig ni at ei gilydd, yn ein barn ni, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well.

- 3.17** Trown nesaf at etholaethau arfaethedig Blaenau Gwent, Heads of the Valleys, Rhondda, a Pontypridd. Cyfluniad yr etholaethau yn y tair olaf o'r etholaethau arfaethedig hyn, yn ein barn ni, fu rhai o'r materion mwyaf anodd y bu'n rhaid i ni eu hystyried. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn amodi bod etholaeth bresennol Cynon Valley yn cael ei chynnwys mewn tair etholaeth. Byddai pedair adran etholiadol, sef Abercynon, Cilfynydd, Glyncoch, ac Ynysybwl yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pontypridd. Mae cydnabyddiaeth yn gyffredinol y byddai hynny'n briodol, gan gofio'r cysylltiadau rhwng y pedair adran etholiadol hon a thref Pontypridd (gweler, er enghraifft, y dystiolaeth yn y gwrandawiaidau cyhoeddus a Chynrychiolaethau 203 a 241).
- 3.18** Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig cynnwys chwe adran etholiadol etholaeth bresennol Cynon Valley yn etholaeth arfaethedig Rhondda, sef, Gogledd Aberaman, De Aberaman, Cwmbach, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, a Phenrhiw-ceibr. Roedd y Cynigion Cychwynnol yn cynnig bod yr adrannau etholiadol sy'n weddill, sef Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed, Hirwaun, Pen-y-waun, a'r Rhigos yn cael eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig Heads of the Valleys. Bu cryn wrthwynebiad i'r cynigion hyn. Mae'r rheiny sy'n byw yng Nghwm Cynon wedi darparu digon o dystiolaeth o'r cysylltiadau hanesyddol a chymunedol cryf sy'n cysylltu'r cymunedau yng Nghwm Cynon. Maent wedi cyfeirio at y gadwyn fynyddoedd sy'n rhannu Cwm Cynon a'r Rhondda. Gallem gyfeirio at lawer o gynrychiolaethau tebyg, ond, fel enghraifft yn unig, cyfeiriwn at y dystiolaeth yn y gwrandawiad cyhoeddus yng Nghaerdydd, ac yng Nghynrychiolaethau 61, 121, 206, 405, 433, 454, 574 a 691.
- 3.19** Mae Ymgyrch Achub Cwm Cynon wedi rhoi gwrthgynigion gerbron gyda'r nod, yn fras, o roi adrannau etholiadol canol a gogledd Cwm Cynon gydag adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney. Yn eu tro, cynhwysir tair adran etholiadol o etholaeth bresennol Pontypridd yn etholaeth arfaethedig y Rhondda. Byddai nifer o adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney (ac o ardaloedd awdurdod unedol presennol Merthyr Tudful, a Chaerffili) yn cael eu cynnwys hefyd mewn etholaeth arfaethedig Pontypridd o dan y gwrthgynnig hwn: gweler cynrychiolaeth 488. Mae nifer o unigolion wedi rhoi gwrthgynigion gerbron hefyd i fynd i'r afael â'r pryderon a godir mewn perthynas â Chwm Cynon, er bod union gyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yn gwahaniaethu: gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 354 (a 719), 409 a 509. Fe wnaeth Plaid Cymru, Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Geidwadol roi gwrthgynigion gerbron hefyd ar gyfer yr etholaethau sy'n cynnwys Cwm Cynon. Trafodwn y rheiny isod.
- 3.20** Fel y nodom uchod, bu cyfansoddiad etholaethau arfaethedig Rhondda, Pontypridd a Heads of the Valleys ymhlith y materion anoddaf y bu'n rhaid i ni eu hystyried. Cydnabyddwn gryfder y gwrthwynebiad i'r Cynigion Cychwynnol. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y Cynigion Cychwynnol, a'r

gwrthgynigion, yn erbyn y meini prawf statudol. Yn anffodus, nid ystyriwn y bydd y gwrthgynigion amrywiol, at ei gilydd, yn arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Yn hytrach, bydd y gwrthgynigion amrywiol, yn ein barn ni, yn arwain at fwy o darfu ar etholaethau presennol neu'n arwain at newidiadau sy'n torri cysylltiadau presennol eraill. Trafodwn y gwrthgynigion isod, ond fel enghraifft yn unig, mae'r gwrthgynigion yn golygu bod adrannau etholiadol o etholaethau presennol Pontypridd, Merthyr Tydfil a Rhymney, ac mewn rhai achosion y Rhondda, yn cael eu cynnwys mewn etholaethau arfaethedig eraill. Byddai un gwrthgynnig yn rhannu tref Pontypridd a byddai'n arwain at newidiadau a fyddai'n torri cysylltiadau presennol ym Mhontypridd. O ganlyniad, nid ystyriwn y byddai'r gwrthgynigion amrywiol, at ei gilydd, yn arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol. Cydnabyddwn y bydd hyn yn siom fawr i'r rheiny yng Nghwm Cynon sydd wedi gweithio'n galed i ddarparu gwrthgynigion dichonadwy.

3.21 Rydym wedi ystyried a oes unrhyw newidiadau y gallem eu hargymell a fyddai'n lleddfu rhai o'r pryderon a godwyd. Roeddem yn ymwybodol o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod cynnwys adrannau etholiadol Dwyrain Aberdâr, a Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed yn etholaeth arfaethedig Heads of the Valleys, a Gogledd Aberaman, De Aberaman a Chwmbach yn etholaeth arfaethedig Rhondda yn rhannu tref Aberdâr i bob pwrpas, a byddai'n torri cysylltiadau presennol yn y dref (gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd, ac fel enghraifft yn unig, Cynrychiolaethau 214 a 405). Byddem felly yn argymell cynnwys Dwyrain Aberdâr, a Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed gyda Gogledd Aberaman, De Aberaman, a Chwmbach yn etholaeth arfaethedig Rhondda (ac argymhellwn ei galw yn Rhondda and Aberdare). I ddarparu ar gyfer y newid argymelledig hwnnw, argymhellwn hefyd fod adrannau etholiadol Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr, ac Abercynon yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Heads of the Valleys (yr argymhellwn ei galw yn Merthyr Tydfil and Lower Cynon). Ymhellach, byddai adran etholiadol Cymer, yn etholaeth bresennol ac etholaeth arfaethedig Rhondda, yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Pontypridd.

3.22 Byddai wedi bod yn well gennym allu argymell newidiadau a oedd yn cynnwys yr adrannau etholiadol sy'n ffurfio tref Aberdâr gydag adrannau etholiadol o Ferthyr Tudful. Roedd mwyafrif y cynrychiolaethau'n ffafrio cyfuniad o adrannau etholiadol o Ferthyr Tudful, ac Aberdâr (er bod rhai wedi gwrthwynebu hynny). Ond ni ddaethom o hyd i ffordd o wneud hyn, ac mae hynny, yn ein barn ni yn gyffredinol, wedi arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Cydnabyddwn hefyd nad yw'n ddelfrydol cynnwys adran etholiadol Cymer (sydd yn etholaeth bresennol ac etholaeth arfaethedig Rhondda) yn etholaeth arfaethedig Pontypridd. Ar ôl pwysu a mesur, fodd bynnag, roeddem o'r farn y byddai'r newid hwnnw'n llai annerbyniol na thorri'r cysylltiadau rhwng adrannau etholiadol Dwyrain

Aberdâr, a Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed ac adrannau etholiadol Gogledd Aberaman, De Aberaman a Chwmbach.

- 3.23** Rydym yn argymhell y dylid ailenwi'r etholaethau arfaethedig. Bydd ein hetholaeth argymelledig yn cynnwys adrannau etholiadol o'r Rhondda a'r adrannau etholiadol sy'n ffurfio Aberdâr. Rydym o'r farn y dylid cydnabod y ddwy ardal yn yr enw. Argymhellwn fod yr etholaeth arfaethedig yn cael ei henwi yn Rhondda and Aberdare. Yn yr un modd, rydym o'r farn y dylai cynnwys adrannau etholiadol o Ferthyr Tudful, a Chwm Cynon mewn un etholaeth gael eu cydnabod yn enw'r etholaeth, ac argymhellwn ei galw'n Merthyr Tydfil and Lower Cynon.
- 3.24** Argymhellwn fod adran etholiadol Parc Tredegar yn cael ei chynnwys yn ein hetholaeth argymelledig Cardiff North and West Gwent, yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Newport Central, er mwyn sicrhau bod ein hetholaeth argymelledig yn bodloni'r amrediad etholiadol. Nid ydym yn argymhell unrhyw newid arall i etholaeth arfaethedig Newport Central heblaw am argymhell Newport fel enw'r etholaeth. Nid ydym yn argymhell unrhyw newidiadau i'r etholaethau arfaethedig eraill ar gyfer yr ardal hon, sef Blaenau Gwent, Monmouthshire, a Torfaen.

Y Prif Wrthgynigion

- 3.25** Ystyriwn yn fyr rai o'r prif wrthgynigion a oedd yn ymwneud ag ardal De Ddwyrain Cymru, neu etholaethau unigol yn yr ardal honno. O ran y pedair plaid wleidyddol seneddol, roedd y Blaid Lafur yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau yn Ne Ddwyrain Cymru ac eithrio etholaethau arfaethedig Cardiff Central and Penarth, a Cardiff East. Roedd y Blaid Lafur yn cynnig cynnwys adrannau etholiadol Y Sblot yn y cyntaf, a Gabalfa yn yr ail. Am y rhesymau a roddwyd uchod, argymhellwn etholaeth Cardiff South and Penarth, a Cardiff Central a byddai'r adrannau etholiadol y cyfeirir atynt gan wrthgynnig y Blaid Lafur yn cael eu cynnwys yn yr etholaethau argymelledig hynny yn y drefn honno. Rydym wedi amlinellu uchod ein rhesymau dros argymhell y newidiadau hyn i'r Cynigion Cychwynnol. Mewn perthynas â Chwm Cynon, roedd y Blaid Lafur yn cydnabod fod y cynigion yn tarfu'n fawr iawn yn y Cwm, ond roedd yn cydnabod hefyd y byddai unrhyw ddewis amgen yn debygol o gael effeithiau tebyg ar etholaethau eraill.
- 3.26** Roedd Plaid Cymru yn cynnig etholaeth Caerphilly. Fodd bynnag, roedd eu hetholaeth arfaethedig yn cynnwys adrannau etholiadol o ddwy ardal awdurdod unedol (Caerffili, a Merthyr Tudful) ac o dair etholaeth bresennol. Byddai etholaeth Caerphilly a argymhellir gennym ni yn cynnwys adrannau etholiadol o un awdurdod unedol (Caerffili) a dwy etholaeth bresennol, ac yn ein barn ni, mae'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Mae Plaid Cymru hefyd yn cynnig etholaeth Cardiff Central, etholaeth Cardiff West and Penarth, ac etholaeth Cardiff North. Mae'r gwrthgynigion hyn yn golygu

cynnwys adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff West mewn dwy etholaeth wahanol, ond mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys holl adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff West mewn un etholaeth. Mae Plaid Cymru hefyd yn cynnig cynnwys chwe adran etholiadol o etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth mewn un etholaeth arfaethedig (Cardiff West and Penarth) a phedair adran etholiadol mewn etholaeth arfaethedig Glan Hafren (gydag adrannau etholiadol o dair etholaeth bresennol arall). Byddai'r newidiadau a argymhellir gennym ni yn sicrhau y byddai holl adrannau etholiadol presennol Cardiff South and Penarth (ac eithrio un, Y Sili) yn cael eu cynnwys mewn un etholaeth (ynghyd ag un adran etholiadol ychwanegol wedi'i hychwanegu i sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol). At ei gilydd, am y rhesymau a roddwyd uchod, rydym o'r farn fod y cynigion a argymhellir gennym ni, a fyddai'n arwain at etholaeth Cardiff West, Cardiff South and Penarth, a Cardiff Central, ac etholaeth Cardiff North and West Gwent yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na gwrthgynnig Plaid Cymru ar gyfer yr etholaethau hyn.

3.27 Mae Plaid Cymru hefyd yn cynnig etholaeth Cwm Cynon and Merthyr Tydfil sy'n cyfuno 11 o adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Cynon Valley a naw o etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney; mae'r cynnig hwn yn cynnwys 11 o adrannau etholiadol o awdurdod unedol Rhondda Cynon Taf ac wyth o awdurdod unedol Merthyr Tudful. Er mwyn darparu ar gyfer y gwrthgynnig hwnnw, mae Plaid Cymru'n cynnig newidiadau i etholaeth arfaethedig Pontypridd a fyddai'n golygu ychwanegu un adran etholiadol o ardal awdurdod unedol Caerffili, ac adrannau etholiadol o ddwy ardal awdurdod unedol arall. Byddai tair adran etholiadol o etholaeth bresennol Pontypridd yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda. Mewn cyferbyniad, byddai etholaeth Pontypridd a argymhellir gennym yn cael ei ffurfio o un awdurdod unedol, Rhondda Cynon Taf, a byddai'n cynnwys holl etholaeth bresennol Pontypridd (ac eithrio un adran etholiadol). Rydym o'r farn fod yr etholaeth arfaethedig honno'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, gan roi ystyriaeth yn benodol i ffiniau llywodraeth leol presennol ac etholaethau, na gwrthgynnig Plaid Cymru. At ei gilydd, felly, er ein bod yn deall y nod o fynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud ag etholaeth bresennol Cynon Valley, ni chredwn fod y gwrthgynnig hwn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well o gymharu â'r etholaethau a argymhellir gennym ni, na'r rheiny a gynigir yn y Cynigion Cychwynnol. Mae Plaid Cymru hefyd yn cynnig etholaeth Glan Hafren sy'n cynnwys adrannau etholiadol o etholaethau presennol Cardiff South and Penarth, Caerphilly, Islwyn, a Newport West. Am y rhesymau a roddir uchod, ystyriwn y dylai etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth gael ei chadw (ac eithrio un adran etholiadol a chan gynnwys un adran etholiadol arall). Mae pedair adran etholiadol y mae Plaid Cymru'n eu cynnwys yn eu hetholaeth arfaethedig Glan Hafren (Abercarn, Bedwas, Trethomas a Machen, Crosskeys, ac Ynysddu yn awdurdod unedol Caerffili) yn well i'w cynnwys, yn ein barn ni, yn etholaeth Caerphilly. Ystyriwn fod yr adrannau etholiadol sy'n weddill y mae Plaid Cymru'n eu cynnwys yn eu

hetholaeth arfaethedig Glan Hafren, yn well i'w cynnwys mewn etholaeth gyda phum adran etholiadol o Gaerdydd.

3.28 Mae gwrthgynnig Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol yn awgrymu newid sylweddol i'r etholaethau yng Nghaerdydd a chymoedd De Cymru. Maent yn cynnig bod adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth yn cael eu cynnwys mewn tair etholaeth arfaethedig wahanol. Maent hefyd yn cynnig cynnwys adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Cardiff West mewn dwy etholaeth arfaethedig. Rydym o'r farn fod y cynigion hyn yn tarfu mwy ar etholaethau presennol na'r newidiadau a argymhellwn ni. Yn benodol, mae holl adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff West yn aros o fewn un etholaeth o dan y Cynigion Cychwynnol, a chredwn y dylai hynny gael ei dderbyn. Mae gwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer etholaeth Cardiff Central yn cynnwys adrannau etholiadol o dair etholaeth bresennol. Mae'r etholaeth Cardiff Central a argymhellwn ni yn cynnwys pump o chwe adran etholiadol yr etholaeth bresennol ynghyd â dwy adran etholiadol ychwanegol o un etholaeth bresennol arall yn unig (o gymharu â dwy adran etholiadol o ddwy etholaeth bresennol wahanol o dan wrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol). Yn fras, rydym yn argymhell cadw i raddau helaeth etholaethau presennol Cardiff Central, Cardiff South and Penarth, a Cardiff West (ac eithrio'r newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr etholaethau hynny ac etholaethau eraill yn bodloni'r amrediad etholiadol). Credwn fod hynny'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, gan ystyried ffiniau etholaethau presennol yn benodol, na gwrthgynnig Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol.

3.29 Mae gwrthgynigion Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn cynnwys etholaeth arfaethedig Cardiff North West and Pontypridd (yn cynnwys naw adran etholiadol o etholaeth bresennol Pontypridd) ac etholaeth Rhondda Fawr and Llantrisant (yn cynnwys wyth adran etholiadol o etholaeth bresennol Pontypridd). Mae hynny, yn ein barn ni, yn tarfu llawer mwy ar etholaeth bresennol Pontypridd na'r newidiadau a argymhellwn ni sy'n gadael yr holl adrannau etholiadol presennol (ac eithrio un) mewn etholaeth arfaethedig Pontypridd. Byddai cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn golygu rhannu tref Pontypridd, ac felly byddai'n golygu newidiadau a fyddai'n torri cysylltiadau presennol rhwng adrannau etholiadol a gynhwysir yn etholaeth bresennol Pontypridd. Byddai'r gwrthgynigion hefyd yn golygu cynnwys naw o adrannau etholiadol etholaeth bresennol Rhondda mewn un etholaeth arfaethedig (Rhondda Fawr and Llantrisant) a chwe adran etholiadol o etholaeth bresennol Rhondda mewn etholaeth arall (Cynon Valley and Rhondda Fach). Byddai'r newidiadau a argymhellir gennym ni yn rhoi 14 o'r 15 o adrannau etholiadol Rhondda mewn un etholaeth (ac, yn ddelfrydol byddai wedi bod yn well gennym i gynnwys pob un o'r 15, ond roedd angen cynnwys un adran etholiadol, Cymer, mewn etholaeth Pontypridd er mwyn hwyluso newidiadau sy'n galluogi adrannau etholiadol Aberdâr, Aberaman a Chwmbach i aros yn yr un etholaeth). Mae gwrthgynigion Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn cynnwys adrannau

etholiadol o etholaethau presennol Merthyr Tydfil and Rhymney mewn dwy etholaeth arfaethedig, ond rydym ni'n argymhell bod yr adrannau etholiadol hynny'n aros mewn un etholaeth. Yn ein barn ni, mae'r newidiadau a argymhellir gennym ni'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, gan ystyried yn benodol ffiniau etholaethau presennol a'r cysylltiadau a fyddai'n cael eu torri gan y newidiadau a hyrwyddir yng ngwrthgynnig y Democratiaid Rhyddfrydol.

- 3.30** Lluniodd y Blaid Geidwadol set gychwynnol o wrthgynigion, ac ar ôl hynny, yng ngolau'r cynrychiolaethau a wnaed, cyflwynodd set wahanol o wrthgynigion. Dywedodd y Blaid Geidwadol y byddent yn fodlon â'u cynigion cychwynnol neu'u cynigion amgen, neu, mewn perthynas â newidiadau i etholaeth bresennol Cardiff North, gwrthgynnig Mr Jonathan Evans A.S.
- 3.31** Roedd gwrthgynigion cychwynnol y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaethau arfaethedig The Vale of Glamorgan, a Cardiff West. Ychydig iawn o newidiadau yr oeddent yn eu cynnig i etholaethau presennol Cardiff Central, a Cardiff South and Penarth i sicrhau bod yr etholaethau hynny'n bodloni'r amrediad etholiadol. Mae'r newidiadau hynny i'r Cynigion Cychwynnol yn debyg i'r rhai a argymhellwn ni. Roedd gwrthgynigion cychwynnol y Blaid Geidwadol yn argymhell etholaeth Caerphilly ond ni fyddai'n cynnwys yn yr etholaeth honno adrannau etholiadol St. James, a St. Martins. Cytunwn y dylai fod etholaeth Caerphilly, ond credwn y dylai gynnwys y ddwy adran etholiadol honno. Ar hyn o bryd maent yn etholaeth bresennol Caerphilly ac mae cysylltiadau'n bodoli rhwng yr adrannau etholiadol hynny ac adrannau etholiadol eraill etholaeth arfaethedig Caerphilly a fyddai'n cael eu torri pe bai gwrthgynnig cychwynnol y Blaid Geidwadol ar gyfer etholaeth arfaethedig Caerphilly yn cael ei dderbyn.
- 3.32** Roedd gwrthgynnig cychwynnol y Blaid Geidwadol yn cynnig etholaeth a enwyd yn North Cardiff and Newport West ganddynt. Byddai hynny'n cynnwys pum adran etholiadol yn etholaeth bresennol Cardiff North (Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Rhiwbeina, Llanisien, Llysfaen, a Phontpennau/Yr Hen Laneirwg), pedair adran etholiadol yn etholaeth bresennol Newport West (Maerun, Parc Tredegar, Graig, a Tŷ-du) a dwy adran etholiadol o etholaeth bresennol Caerphilly (St. Martins, a St. James). Cytunwn fod etholaeth Cardiff North and West Gwent yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol, ond am y rhesymau a roddwyd uchod, credwn y dylai St. Martins, a St. James (o etholaeth bresennol Caerphilly) gael eu cynnwys yn ein hetholaeth argymelledig Caerphilly. Rydym o'r farn y dylai Dwyrain Rhisga, a Gorllewin Rhisga, o etholaeth bresennol Islwyn, gael eu cynnwys yn ein hetholaeth argymelledig Cardiff North and West Gwent.
- 3.33** Roedd gwrthgynigion cychwynnol y Blaid Geidwadol yn cefnogi etholaethau arfaethedig Newport, a Torfaen ac eithrio y byddent yn cynnwys adrannau

etholiadol Caerllion yn etholaeth arfaethedig Newport, a Betws yn etholaeth arfaethedig Torfaen. Mae angen cynnwys adran etholiadol yn etholaeth bresennol Torfaen er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol. Mae'r dystiolaeth sydd wedi dod i law yn dangos bod rhesymau da dros gynnwys Caerllion yn etholaeth arfaethedig Torfaen am fod yna gysylltiadau naturiol a chysylltiadau trafniadaeth rhwng Caerllion ac adrannau etholiadol eraill yn Nhorfaen: gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 55, 56 ac 87 (er bod gwrthwynebiad hefyd i gynnwys adran etholiadol Caerllion yn etholaeth arfaethedig Torfaen: gweler, er enghraifft, Cynrychiolaethau 114, 211, 202 a 552). At ei gilydd, ni chredwn y byddai'r gwrthgynnig mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Torfaen yn gwella ar y Cynigion Cychwynnol, ac ni fyddai'n arwain at etholaeth Newport, na Torfaen, a fyddai'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol. Nid ydym felly'n argymhell y dylai fod unrhyw newid i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaethau arfaethedig Torfaen, na Newport Central (ac eithrio cynnwys adran etholiadol Parc Tredegar yn ein hetholaeth argymelledig Cardiff North and West Gwent, ac argymhellwn ei galw'n Newport). Roedd gwrthgynigion cychwynnol y Blaid Geidwadol hefyd yn cynnwys adran etholiadol Aberbargoed yn etholaeth arfaethedig Blaenau Gwent gan yr oedd y Blaid Geidwadol o'r farn fod gan yr adran etholiadol honno gysylltiadau ag adrannau etholiadol Argoed a'r Coed Duon yn yr etholaeth arfaethedig honno. Credwn ei bod yn well bod adran etholiadol Aberbargoed yn cael ei chynnwys yn yr un etholaeth ag adrannau etholiadol Bargoed, a Gilfach. Mae pob un o'r tair yn ffurfio Cymuned Bargoed. Argymhellwn felly fod pob un o'r tair adran etholiadol honno'n cael eu cynnwys mewn un etholaeth, sef ein hetholaeth argymelledig Merthyr Tydfil and Lower Cynon. Byddai'r argymhelliad hwnnw, pe bai'n cael ei dderbyn, yn osgoi torri cysylltiadau presennol rhwng yr adrannau etholiadol hynny. Roedd gwrthgynigion cychwynnol y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaethau arfaethedig Heads of the Valleys, Pontypridd, a Rhondda.

- 3.34** Byddai cynnig amgen y Blaid Geidwadol yn creu mwy o newidiadau mawr i nifer o'r etholaethau presennol nag yr argymhellwn ni. Byddent yn cynnwys pedair adran etholiadol Cardiff West mewn etholaeth Cardiff North (mae'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cardiff West yn cynnwys holl adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff West mewn un etholaeth). Byddent hefyd yn cynnwys wardiau eraill eraill yn etholaeth bresennol Cardiff West gydag adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth. Mewn cyferbyniad, byddai'r newidiadau a argymhellwn ni yn sicrhau bod pob un ac eithrio un o adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth (sef adran etholiadol Y Sili) yn cael eu cynnwys o fewn yr un etholaeth. Credwn felly fod ein newidiadau argymelledig ni i'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na gwrthgynigion amgen y Blaid Geidwadol. Roedd cynigion amgen y Blaid Geidwadol hefyd yn cynnig etholaeth Aberdâr a Merthyr gan gyfuno adrannau etholiadol o etholaethau presennol Merthyr Tydfil and Rhymney, a Cynon Valley, a sicrhau bod adrannau etholiadol Aberdâr, ac Aberaman yn

aros yn yr un etholaeth. Rydym yn deall y sail resymegol y tu ôl i'r gwrthgynnig amgen hwn. Fodd bynnag, effeithiau canlyniadol y cynnig yw bod tair adran etholiadol yn etholaeth bresennol Pontypridd i'w cynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda. Mae'r gwrthgynnig hwn hefyd yn cynnwys un adran etholiadol, Nelson, o awdurdod unedol Caerffili, yn etholaeth arfaethedig Pontypridd. Yn ein barn ni, byddai effeithiau canlyniadol y gwrthgynnig hwn, at ei gilydd, yn arwain at etholaethau nad ydynt yn adlewyrchu'r meini prawf statudol gystal â'n newidiadau argymelledig ni i'r Cynigion Cychwynnol. Nodwn fod y gwrthgynigion hyn hefyd yn rhannu Cymuned Llantrisant gydag adran etholiadol Tonysguboriau yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Rhondda, a'r adrannau etholiadol eraill yn ffurfio rhan o'r Gymuned honno wrth gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Pontypridd. Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn wedi ceisio sicrhau bod etholaethau'n cael eu creu o Gymunedau cyfan. Mae cynigion amgen y Blaid Geidwadol hefyd yn cynnig etholaeth Glan Hafren yn cynnwys fel yr awgrymwyd gan Blaid Cymru. Rydym wedi esbonio uchod pam nad ydynt wedi derbyn y gwrthgynnig hwnnw.

3.35 Mae'r AS ar gyfer etholaeth bresennol Cardiff North, Mr Jonathan Evans, wedi gwneud gwrthgynnig hefyd a fyddai'n cynnwys etholaeth Caerphilly, North Cardiff, a Cardiff East and West Newport. Cyflwynwyd y manylion fel rhan o'r cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaerdydd. Yn ogystal, gwnaeth Mr Evans gynrychiolaethau ysgrifenedig pellach (gweler cynrychiolaethau 356 a 546). Mae'r prif newidiadau a gynigir gan y gwrthgynnig hwn yn cynnwys etholaeth Caerphilly a hefyd etholaeth North Cardiff sy'n cynnwys chwech o adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff North, dwy adran etholiadol o etholaeth bresennol Caerphilly (St. James, a St. Martins) ac un, Cyncoed, o etholaeth bresennol Cardiff Central. Am y rhesymau a roddwyd uchod, credwn y dylai fod etholaeth Caerphilly ac y dylai gynnwys adrannau etholiadol St. James, a St. Martins. Argymhellwn hefyd cynnal i raddau helaeth etholaeth bresennol Cardiff Central. Rydym o'r farn y dylai adran etholiadol Cyncoed, sydd yn etholaeth bresennol Cardiff Central, ac sydd â chysylltiadau ag adrannau etholiadol eraill yn yr etholaeth honno, gael ei chynnwys yn yr etholaeth honno (ac nid ei chynnwys, fel y mae Mr Evans yn cynnig, mewn etholaeth North Cardiff). Fel yr esboniwyd uchod, byddai cadw'r rhan fwyaf o adrannau etholiadol presennol Cardiff Central mewn un etholaeth yn mynnu ychwanegu adrannau etholiadol er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol. Credwn y dylai un o'r adrannau etholiadol, Y Mynydd Bychan, y byddai Mr Evans yn ei chynnwys yn ei etholaeth arfaethedig North Cardiff, gael ei chynnwys mewn etholaeth Cardiff Central. Roedd Mr Evans hefyd yn cynnig etholaeth Cardiff East and West Newport. Byddai honno'n cynnwys pedair adran etholiadol o etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth, dwy (Pentwyn, a Phenylan) o etholaeth bresennol Cardiff Central a phedair o etholaeth bresennol Newport West. Rydym o'r farn, fodd bynnag, y dylai etholaethau presennol Cardiff Central, a Cardiff South and Penarth aros heb eu newid i raddau helaeth (ac eithrio lle mae newidiadau'n angenrheidiol

i sicrhau bod yr etholaethau hynny, neu etholaethau eraill, yn bodloni'r amrediad etholiadol). Byddai'r newidiadau a gynigir gan Mr Evans yn tarfu mwy ar etholaethau presennol. Byddent hefyd yn torri cysylltiadau rhwng adrannau etholiadol Pentwyn, a Phenylan â chysylltiadau Plasnewydd, a Chyncoed. Credwn fod y newidiadau a argymhellwn ni yn arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r etholaethau Caerphilly, North Cardiff, and Cardiff East a West Newport a gynigiwyd yn y gwrthgynnig hwn.

3.36 Gwnaeth nifer o unigolion wrthgynigion a oedd yn rhoi sylw i'r etholaethau yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae un gwrthgynnig, a gyflwynwyd gan grŵp o wylwyr academaidd (cynrychiolaeth 409), yn ein barn ni, yn golygu mwy o darfu ar etholaethau presennol yn yr ardal hon na'r newidiadau a argymhellwn ni. Fel enghraifft, o'r 18 o adrannau etholiadol sy'n ffurfio etholaeth bresennol Pontypridd, mae'r gwrthgynigion yn cynnwys wyth ohonynt ynghyd ag adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Cynon Valley mewn un etholaeth, saith mewn etholaeth wahanol ynghyd ag adrannau etholiadol o etholaethau presennol Cardiff West a Cardiff North, a'r adrannau etholiadol sy'n weddill mewn etholaeth arall ynghyd ag adrannau etholiadol o etholaethau presennol Rhondda ac Ogmore. Bydd ein newidiadau argymelledig ni yn sicrhau bod pob un ac eithrio un o adrannau etholiadol etholaeth bresennol Pontypridd yn aros o fewn yr etholaeth honno. Mae un adran etholiadol, Pont-y-clun, wedi'i chynnwys gydag etholaeth arfaethedig Cardiff West i gynorthwyo i sicrhau bod yr etholaeth honno'n bodloni'r amrediad etholiadol. Eto, fel enghraifft, mae'r gwrthgynnig hwn yn cynnwys pedair adran etholiadol sydd yn etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd, yn etholaeth arfaethedig Cardiff East and Ebbw a saith mewn etholaeth arfaethedig Cardiff South and Penarth ynghyd â phedair adran etholiadol o etholaeth bresennol Cardiff West. Mae ein hetholaeth argymelledig ni, Cardiff West, yn cynnwys holl adrannau etholiadol etholaeth bresennol Cardiff West, ac mae ein hetholaeth argymelledig Cardiff South and Penarth yn cynnwys 11 o 12 o adrannau etholiadol etholaethau presennol Cardiff South a Penarth gydag adrannau etholiadol wedi'u cynnwys (neu'u cynnwys mewn etholaethau eraill) lle bo angen i sicrhau bod etholaethau'n bodloni'r amrediad etholiadol. At ei gilydd, rydym o'r farn fod y newidiadau a argymhellwn ni ar gyfer etholaethau yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r gwrthgynnig.

3.37 Mae ystyriaethau tebyg yn rhan o'r gwrthgynigion a wnaed gan unigolion eraill. Mae'r rhai a wnaed gan Mr D. L. Davies (gweler cynrychiolaethau 354 a 719) yn cynnwys, er enghraifft, mwy o darfu ar yr etholaethau presennol oddi mewn i ardal awdurdod unedol Caerdydd nag a argymhellwyd gennym ni. Maent hefyd yn golygu mwy o darfu ar etholaeth bresennol Pontypridd nag a argymhellwyd gennym ni. Mae'r gwrthgynigion a wnaed gan Mr Lewis Baston (cynrychiolaeth 509) yn golygu mwy o darfu ar etholaeth bresennol Vale of Glamorgan ac etholaethau eraill yng Nghaerdydd nag a argymhellwyd gennym ni. Byddai'r gwrthgynnig diwethaf hwn hefyd yn golygu newidiadau a

fyddai'n torri cysylltiadau sy'n bod gan y byddent yn gosod adrannau etholiadol Pentwyn a Chyncoed mewn etholaethau gwahanol i rai Penylan a Phlasnewydd. Yn yr un modd byddai adrannau etholiadol Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, a Rhiwbeina mewn etholaeth wahanol i rai Llanisien, a Llysfaen. Mae ystyriaethau tebyg ynghylch gwrthgynigion eraill a wnaed, fel y rhai a wnaed gan Mr Martin Schaum (cynrychiolaeth 51). Gwnaeth Cymdeithas Sir Fynwy gynrychiolaethau (cynrychiolaeth 73) a argymhellai newidiadau i'r etholaethau presennol sy'n cynnwys mwy o darfu na'r newidiadau a argymhellwyd gennym ni. Am y rhesymau hynny, ystyriwn fod y newidiadau a argymhellwyd gennym ni, at ei gilydd, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r gwrthgynigion rydym wedi eu derbyn. Rydym wedi cyfeirio at rai o'r gwrthgynigion unigol yn yr adroddiad hwn. Nid ydym wedi cyfeirio at bob un gwrthgynnig unigol, boed hwy ar gyfer nifer o etholaethau neu etholaethau unigol. Rydym, fodd bynnag, wedi ystyried yn ofalus yr holl wrthgynigion, a'r holl gynrychiolaethau a wnaed, wrth ddod i'n casgliadau ar ba newidiadau i'w hargymell ar y Cynigion Cychwynol i'r ardal hon, fel pob ardal arall, yng Nghymru.

De Orllewin Cymru

3.38 Cymerir bod De Orllewin Cymru, at ddibenion yr adroddiad hwn, yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Castellnedd Port Talbot, ac Abertawe. Ymdriniwn â dwy adran etholiadol, Cenarth a Llangeler, sydd yn ardal Cyngor Sir Gaerfyrddin, pan ymdriniwn â Gorllewin Cymru.

3.39 Mae'r Cynigion Cychwynol yn cynnig saith etholaeth ar gyfer yr ardal hon. Cawsom nifer fawr o gynrychiolaethau ynghylch union gyfansoddiad etholaethau arfaethedig Gower and Swansea West, Llanelli, a Swansea East. Cawsom hefyd rai cynrychiolaethau ynghylch etholaethau arfaethedig Aberavon and Ogmored, Bridgend, a Neath er bod, at ei gilydd, cefnogaeth gyffredinol i gyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig hyn.

3.40 Yn gryno, argymhellwn y newidiadau canlynol i'r cynigion cychwynol:

- (1) bod adrannau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf a Kingsbridge yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West;**
- (2) bod adrannau etholiadol Llangyfelach, a Phenllergaer yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli;**
- (3) bod adran etholiadol Townhill yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West;**

(4) bod adran etholiadol Y Cocyd yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Swansea East.

- 3.41** Trown yn gyntaf at etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys adrannau etholiadol Gorseinon, Penyrheol, Llangyfelach, Penllergaer, a Phontarddulais yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Mae'r adrannau etholiadol hyn yn etholaeth bresennol Gower. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys adrannau etholiadol Llŵchwr Isaf, Llŵchwr Uchaf a Kingsbridge yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West (maent yn etholaeth bresennol Gower ar hyn o bryd).
- 3.42** Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau sydd, yn ein barn ni, yn arddangos y cysylltiadau sy'n bod rhwng ardaloedd etholiadol Llŵchwr Isaf, Llŵchwr Uchaf a Kingsbridge a rhai Gorseinon, a Phenyrheol. Y dystiolaeth a gawsom yw bod y pum adran etholiadol hyn yn ffurfio un gymuned o fewn un ardal drefol unigol a bod cysylltiadau trafndiaeth rhwng Llŵchwr, a Kingsbridge a Gorseinon, a Phenyrheol (gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 65, 165, 192 a 487). Drwy osod dwy o'r adrannau etholiadol hyn yn etholaeth arfaethedig Llanelli a thair yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West, mae'r Cynigion Cychwynnol yn torri'r cysylltiadau lleol sy'n bod rhwng y pum ardal etholiadol hyn. Argymhellwn, felly, fod adrannau etholiadol Llŵchwr Isaf, Llŵchwr Uchaf, a Kingsbridge yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli ynghyd ag adrannau etholiadol Gorseinon, a Phenyrheol.
- 3.43** Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau fod gan adrannau etholiadol Llangyfelach, a Phenllergaer gysylltiadau gydag adrannau etholiadol Treforys, a Mynydd Bach sy'n ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig Swansea East. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn nodi bod trigolion Llangyfelach, a Phenllergaer yn edrych tuag at Dreforys, a dinas Abertawe, am gyflogaeth a gwasanaethau a bod cysylltiadau trafndiaeth rhwng Llangyfelach ac ardaloedd yn etholaeth arfaethedig Swansea East: gweler y dystiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 165, 316 a 487. Ystyriwn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Llangyfelach, a Phenllergaer yn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli er mwyn osgoi newidiadau a fyddai'r torri'r cysylltiadau presennol sydd rhwng yr adrannau etholiadol hyn.
- 3.44** Cawsom rai cynrychiolaethau y dylid cynnwys adran etholiadol Pontarddulais hefyd yn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag etholaeth arfaethedig Llanelli: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 185 a 193. Rydym hefyd wedi derbyn dystiolaeth fod gan adran etholiadol Pontarddulais gysylltiadau agos gydag adran etholiadol Hendy sydd o fewn etholaeth bresennol ac arfaethedig Llanelli (gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe). Cytunwn fod gan Bontarddulais gysylltiadau cryfach gyda Hendy. Gan fod angen cynnwys adrannau etholiadol

yn etholaeth Llanelli, er mwyn sicrhau bod yr etholaeth yn bodloni'r amrediad etholiadol, rydym wedi ein bodloni ei bod yn briodol cynnwys adran etholiadol Pontarddulais yn etholaeth arfaethedig Llanelli fel a gynigir yn y Cynigion Cychwynnol.

3.45 Rydym wedi ein bodloni bod etholaeth Llanelli fel a argymhellir gennym, sy'n cynnwys adrannau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf, a Kingsbridge ond nad yw'n cynnwys adrannau etholiadol Llangyfelach, a Phenllergaer, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol yn hyn o beth. Yn neilltuol, yn ein barn ni, mae'r newidiadau a argymhellir gennym yn osgoi torri cysylltiadau lleol sy'n bod. Nodwn, hefyd, fod adrannau etholiadol Llangyfelach, a Phenllergaer o fewn ardal awdurdod unedol Dinas a Sir Abertawe a bod y cyfan o etholaeth arfaethedig Swansea East wedi ei gwneud o adrannau etholiadol o'r ardal honno. Cydnabyddwn y bydd y newidiadau a argymhellir gennym yn arwain at gynnwys mwy nag un adran etholiadol sydd o fewn etholaeth bresennol Gower ar hyn o bryd, ac o fewn ardal awdurdod unedol Abertawe, yn etholaeth arfaethedig Llanelli sydd fel arall wedi ei gwneud yn bennaf o adrannau etholiadol o ardal awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin. Ond byddai etholaeth arfaethedig Llanelli, beth bynnag, yn cynnwys adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Gower ac o ardal awdurdod unedol Abertawe gan fod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod etholaeth arfaethedig Llanelli yn bodloni'r amrediad etholiadol. Drwodd a thro, nid ydym yn ystyried bod cynnwys un adran etholiadol ychwanegol yn ei hanfod yn newid cydbwysedd etholaeth arfaethedig Llanelli mewn cymhariaeth â'r Cynigion Cychwynnol.

3.46 Trown yn nesaf at etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West. Rydym yn ystyried na ddylai'r etholaeth arfaethedig hon gynnwys adrannau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf, a Kingsbridge am y rhesymau a gyflwynwyd uchod. Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau y dylid cynnwys adran etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Ond rydym wedi cael nifer sylweddol o gynrychiolaethau sy'n gwrthwynebu'r awgrym hwnnw. Y dystiolaeth rydym wedi ei chael yw bod Tre-gŵyr wedi ei chysylltu â gweddill Penrhyn Gŵyr o ran diwylliant, traddodiad, hanes, ac ysgolion: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 573, 602 a 669. Mae wedi ei lleoli ar ochr ddeheuol aber Afon Lluchwr ac yn edrych tua'r de i Benrhyn Gŵyr, ac nid tua'r gogledd tua Llanelli (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 568 a 596). Ystyriwn fod y dystiolaeth a gawsom yn arddangos fod gan adran etholiadol Tre-gŵyr gysylltiadol ag adrannau etholiadol yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West ac y byddai cynnwys adran etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Llanelli yn torri'r cysylltiadau hynny sy'n bod. Nid ydym, felly, yn argymhell newid o'r fath ac ystyriwn y dylid cynnwys adran etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West.

3.47 Os nad yw etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West yn cynnwys adrannau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf, a Kingsbridge, mae angen newidiadau pellach i sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn bodloni'r

amrediad etholiadol. Cafwyd cynrychiolaethau y dylai adran etholiadol ychwanegol unigol megis adran etholiadol Castell neu Y Cocyd y mae'r Cynigion Cychwynnol yn eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Swansea East, yn hytrach, gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West. Byddai'r newid hwnnw ar ei ben ei hun, fodd bynnag, yn arwain at fod yr etholaeth arfaethedig, gyda'r newid a argymhellir gennym ni, yn mynd dros yr amrediad etholiadol a ganiateir. Mae angen, felly, i un adran etholiadol y cynigir ei chynnwys ar hyn o bryd o fewn etholaeth Gower and Swansea West gael ei chynnwys yn lle hynny yn etholaeth arfaethedig Swansea East, ac yna darparu ar gyfer cynnwys adran etholiadol ychwanegol yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West.

- 3.48** Yn ein barn ni, y newidiadau sy'n adlewyrchu'r meini prawf orau yw cynnwys adran etholiadol Townhill yn etholaeth arfaethedig Swansea East ac adran etholiadol Y Cocyd yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West. Gwnaed cynrychiolaethau na ddylid cynnwys adran etholiadol Castell yn etholaeth arfaethedig Swansea East. Awgrymwyd bod Afon Tawe yn ffurfio ffin naturiol rhwng etholaethau arfaethedig Gower and Swansea West, a Swansea East, a bod gan adrannau etholiadol Townhill, a Chastell gysylltiadau a gâi eu torri pe gosodid hwy mewn etholaethau gwahanol: gweler, er enghraifft, y dystiolaeth yn y gwrandawiadau cyhoeddus a chynrychiolaethau 193, 199, 204 a 212. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cael tystiolaeth, yr ydym yn ei derbyn, sy'n dangos bod gan adran etholiadol Castell gysylltiadau erbyn hyn gydag adran etholiadol St. Thomas, a Landore ac, yng ngoleuni datblygiadau yn Abertawe, nad yw Afon Tawe bellach yn ffin naturiol rhwng adrannau etholiadol Castell, a St. Thomas: gweler, er enghraifft, y dystiolaeth yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe a chynrychiolaethau 540, a 683. Dewis arall fyddai cynnwys adran etholiadol Y Cocyd yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West: gweler, e.e., cynrychiolaeth 86. O dan yr amgylchiadau hynny, ac o gofio'r angen i sicrhau bod etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West yn bodloni'r amrediad etholiadol, argymhellwn fod adran etholiadol Y Cocyd yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West a bod adran etholiadol Townhill yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Swansea East. Byddai hynny'n osgoi torri'r cysylltiadau mae'r dystiolaeth yn awgrymu sy'n bod rhwng adrannau etholiadol Townhill, a Chastell (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 193 a 478) gan sicrhau ar yr un pryd fod y ddwy etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol. Mae pob un o'r tair adran etholiadol sydd dan ystyriaeth yn etholaeth bresennol Swansea West ac o fewn awdurdod unedol Abertawe ac nid yw'r meini prawf statudol hynny o gymorth wrth benderfynu pa adran etholiadol ddylai fod ym mha etholaeth arfaethedig. Nid ydym yn ystyried bod unrhyw ffactorau daearyddol arbennig sy'n dangos pa adran etholiadol neilltuol ddylai gael ei chynnwys mewn un etholaeth arfaethedig neilltuol. Yn hytrach, yn ein barn ni, yr angen yw sicrhau bod y ddwy etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol a'r datrysiad sydd orau, a'r un datrysiad sy'n adlewyrchu'n gyffredinol y meini prawf statudol orau, yw cynnwys adrannau

etholiadol Castell, a Townhill yn yr un etholaeth, a gadael adran etholiadol Y Cocyd i'w chynnwys mewn etholaeth wahanol.

- 3.49** Argymhellwn un newid i etholaeth arfaethedig Caerfyrddin ond rydym yn ymdrin â'r newid hwnnw a argymhellir gennym isod wrth drafod Gorllewin Cymru. Nid ydym yn argymhell newidiadau i etholaethau arfaethedig Aberavon and Ogmore, Bridgend, na Neath (ond ein bod yn argymhell ei henwi yn Neath and the Swansea Valley).

Y Prif Wrthgynigion

- 3.50** Ystyriwn yn fyr rai o'r prif wrthgynigion a oedd a wnelont â'r etholaethau yn ardal De Orllewin Cymru. Mae gwrthgynigion y Blaid Lafur yn cynnig bod adrannau etholiadol Lluchwr Isaf, Lluchwr Uchaf, a Kingsbridge yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Llanelli a bod adrannau etholiadol Llangyfelach, a Phenllergaer yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Swansea East. Cytunwn â'r gwrthgynigion hynny am y rhesymau a roddir uchod. Byddai gwrthgynigion y Blaid Lafur hefyd yn cynnwys adrannau etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Llanelli a Phontarddulais yn etholaeth arfaethedig Swansea East. Fel y nodwyd uchod, ystyriwn fod gan adran etholiadol Tre-gŵyr gysylltiadau gydag adrannau etholiadol eraill yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West ac y torrid y cysylltiadau hynny pe cynhwysid yr adran etholiadol yn lle hynny yn etholaeth arfaethedig Llanelli. Yn ychwanegol, mae adran etholiadol Tre-gŵyr o fewn etholaeth bresennol Gower (y mae naw adran etholiadol ohoni o fewn ein hetholaeth arfaethedig Gower and Swansea West) ac o fewn ardal awdurdod unedol Abertawe. Mae'r ffactorau hynny hefyd yn cefnogi'r safbwynt fod cynnwys adran etholiadol Tre-gŵyr yn etholaeth arfaethedig Gower and Swansea West yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na gwrthgynnig y Blaid Lafur. Mewn perthynas ag adran etholiadol Pontarddulais, fel y nodwyd uchod, mae'r adran etholiadol honno yn cael ei chynnwys yn briodol yn etholaeth arfaethedig Llanelli er mwyn sicrhau bod yr etholaeth honno yn bodloni'r amrediad etholiadol. Cynigiodd y Blaid Lafur (a nifer o bobl eraill) hefyd fod adran etholiadol Castell yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth Gower and Swansea West a argymhellir gennym. Fel yr eglurwyd gennym uchod, o gofio'r newidiadau a argymhellir gennym, byddai'r newid hwnnw ar ei ben ei hun yn arwain at yr etholaeth a argymhellir yn mynd dros yr amrediad etholiadol. Yn fwy na hynny, nid ydym yn ystyried bod Afon Tawe bellach yn ffurfio ffin naturiol rhwng Dwyrain a Gorllewin Abertawe. Am y rhesymau a gyflwynwyd uchod, nid ydym o'r herwydd yn derbyn y gwrthgynnig hwn. Roedd y Blaid Lafur yn cefnogi etholaethau arfaethedig Aberavon and Ogmore, Bridgend, Caerfyrddin a Neath.
- 3.51** Ni wnaed unrhyw wrthgynigion gan Blaid Cymru na Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch cyfansoddiad y saith etholaeth arfaethedig yn y rhan hon o Gymru.

- 3.52** Nid oedd gwrthgynigion cychwynnol a gwrthgynigion dewis arall y Blaid Geidwadol yn cynnwys gwrthgynigion ar gyfer chwech o'r saith etholaeth ond gwnaed un gwrthgynnig ganddynt ar gyfer etholaeth arfaethedig Caerfyrddin y byddwn yn ei drafod isod wrth ymdrin â Gorllewin Cymru.
- 3.53** Cawsom gynrychiolaethau eraill ynghylch yr etholaethau arfaethedig hyn. Mae'r gwrthgynnig a wnaed gan y grŵp o wylwyr academiaidd (cynrychiolaeth 409) ar y cyfan yn cefnogi'r newidiadau a argymhellir gennym. Yn ychwanegol, maent yn cynnig cynnwys adran etholiadol Mawr yn etholaeth arfaethedig Swansea East yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Neath. Ar hyn o bryd mae adran etholiadol Mawr yn etholaeth bresennol Gower. Yn ein barn ni, mae gan yr adran etholiadol gysylltiadau cryfach gydag adran etholiadol Clydach y mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Neath (gweler, er enghraifft, cynrychiolaeth 581). Drwodd a thro, cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer etholaeth arfaethedig Neath. Ystyriwn y byddai cynnwys adran etholiadol Mawr yn etholaeth arfaethedig Neath yn briodol ac nid ydym yn ystyried y byddai'r agwedd hon ar y gwrthgynnig yn arwain at unrhyw welliant ar y Cynigion Cychwynnol. Roedd y gwrthgynnig a geir yng nghynrychiolaeth 509 yn cynnig newidiadau ar raddfa fawr i'r Cynigion Cychwynnol gan gynnwys newidiadau i'r etholaethau yn yr ardal hon. Mae'r gwrthgynnig hwn, yn ein barn ni, yn cynnwys llawer mwy o darfu ar yr etholaethau presennol a byddai'n arwain at newidiadau a fyddai'n torri llawer mwy o gysylltiadau lleol sy'n bod na'r Cynigion Cychwynnol ac ni fyddem yn argymhell ei dderbyn. Gwnaed cynrychiolaethau na ddylid cynnwys adrannau etholiadol Clydach, Mawr, a Chymuned Birchgrove yn etholaeth arfaethedig Neath. Yn ein barn ni, o gofio'r angen i sicrhau bod yr etholaeth honno yn bodloni'r amrediad etholiadol, mae cynnwys yr ardaloedd hyn yn etholaeth arfaethedig Neath yn amhrifodol. Mae etholaeth bresennol Neath eisoes yn cynnwys adrannau etholiadol sy'n cynnwys rhan fawr o Gwm Tawe ac mae'r Cynigion Cychwynnol, yn ein barn ni, yn estyniad rhesymegol ar yr ymagwedd honno.
- 3.54** Cawsom rai cynrychiolaethau yn cynnig ffurfweddiad gwahanol ar gyfer etholaethau arfaethedig Aberavon and Ogmored, a Bridgend: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 38 a 44. Byddai'r rhain yn gyffredinol yn cynnwys o fewn etholaeth Aberavon and Ogmored ddwy adran etholiadol (De Corneli, a'r Pil) sydd yn etholaeth bresennol Bridgend. Byddai dwy adran etholiadol arall (Abercynffig, a Chefn Cribwr) o etholaeth bresennol Ogmored yn cael eu cynnwys yn etholaeth Aberavon and Ogmored yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Bridgend. Byddai'r gwrthgynnig yn cynnwys wyth adran etholiadol ychwanegol (o fewn etholaeth bresennol Ogmored) yn etholaeth arfaethedig Bridgend yn hytrach nag yn etholaeth Aberavon and Ogmored. Dywedir bod yr wyth adran etholiadol, yn ddaeryddol, wedi alinio mwy gydag Aberavon nag Ogmored. Rydym yn deall y rhesymwaith y tu cefn i'r gwrthgynnig hwn (ac mewn cynrychiolaethau eraill sy'n gwneud yr un pwynt). Yn y pen draw, fodd bynnag, nid ydym yn ystyried, ar ôl ystyried yr holl feini prawf statudol, fod y newidiadau a roddir gerbron gan y gwrthgynnig yn

arwain at welliant ar y Cynigion Cychwynnol. Byddent yn gofyn am gynnwys dwy adran etholiadol o etholaeth bresennol ac arfaethedig Bridgend gydag etholaeth arfaethedig Aberavon and Ogmored yn lle hynny. Byddai cynnwys adran etholiadol Abercynffig, yn neilltuol, yn ein barn ni yn torri cysylltiadau rhwng yr adran etholiadol honno ac adrannau etholiadol eraill yn etholaeth arfaethedig Bridgend. Ar y cyfan, felly, ystyriwn na fyddai'r newidiadau a gynigir yn arwain at unrhyw welliant ar y Cynigion Cychwynnol ac na fyddent yn arwain at etholaethau a fyddai'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Rydym wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gwrthgynigion eraill, wrth gyrraedd ein casgliadau ar ba newidiadau i'w hargymell i'r Cynigion Cychwynnol i'r etholaethau yn yr ardal hon, fel ym mhob ardal, o Gymru.

Gorllewin Cymru

3.55 Cymerir bod Gorllewin Cymru at ddibenion yr adroddiad hwn yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Ceredigion, a Sir Benfro. Rydym hefyd yn ymdrin â dwy adran etholiadol, Cenarth a Llangeler, sydd yn ardal Cyngor Sir Gaerfyrddin.

3.56 Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig dwy etholaeth i'r ardal hon, Ceredigion and North Pembrokeshire, a South and West Pembrokeshire. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r ddwy etholaeth: gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 252, 428 a 480 (er bod peth gwrthwynebiad: gweler cynrychiolaethau 59, 457 a 733). Rydym, fodd bynnag, wedi cael nifer sylweddol o gynrychiolaethau ynghylch un adran etholiadol, Maenclochog y mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig ei chynnwys yn etholaeth Ceredigion and North Pembrokeshire.

3.57 Yn gryno, argymhellwn:

(1) y dylai adran etholiadol Maenclochog gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire; ac

(2) y dylai adran etholiadol Llangeler gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire.

3.58 Y dystiolaeth rydym wedi ei derbyn yw bod gan adran etholiadol Maenclochog gysylltiadau sy'n bod gyda Hwlfordd ac ardaloedd i'r de yn hytrach nag ag Aberteifi tua'r gogledd. Y dystiolaeth yw bod trigolion Maenclochog yn edrych at Hwlfordd ac Arberth sydd yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire i gael cyflogaeth, gwasanaethau ac mae eu cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol hefyd gyda'r ardaloedd hynny. Mae cysylltiadau trafniadaeth hefyd tua'r de. Gweler y cynrychiolaethau a wnaed mewn gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe ac, er enghraifft, cynrychiolaethau ysgrifenedig 96 a 420. Ystyriwn fod cysylltiadau presennol cryf rhwng adran etholiadol Maenclochog ac adrannau etholiadol

eraill yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire. Câl'r cysylltiadau hynny eu torri pe gosodid Maenclochog, fel a gynigiwyd yn y Cynigion Cychwynnol, mewn etholaeth wahanol. Rydym felly yn argymhell cynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth South and West Pembrokeshire.

3.59 Os derbynnir y newid hwn a argymhellir gennym, bydd angen cynnwys un adran etholiadol yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire i sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol. Mae'r gwrthgynigion wedi cynnig bod adran etholiadol Llangeler yn cael ei chynnwys. Mae'r adran etholiadol honno yn etholaeth bresennol Carmarthen East and Dinefwr ac mae'r Cynigion Cychwynnol yn ei gosod yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. Mae'r adran etholiadol o fewn ardal awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin. Cydnabyddwn y bydd y newid a argymhellwn yn golygu cynnwys adran etholiadol o etholaeth arall ac o ardal awdurdod unedol arall. Fodd bynnag, mae'r Cynigion Cychwynnol eisoes yn cynnwys un adran etholiadol, Cenarth, o'r ardal awdurdod unedol hon a'r etholaeth bresennol hon yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire. Ystyriwn, ar y cyfan, y bydd yr enillion o gynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire, ac osgoi torri clymau lleol sy'n bod, yn gwrthbwyso unrhyw anfantais a godai o gynnwys adran etholiadol arall o etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire. Nodwn fod cefnogaeth sylweddol i'r cynnig pe bai adran etholiadol Maenclochog yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire, y byddai wedyn yn briodol cynnwys adran etholiadol Llangeler yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire gan fod ganddi gysylltiadau gydag adrannau etholiadol a gynhwysir yn yr etholaeth arfaethedig honno; gweler y cynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 93 a 489.

Y Prif Wrthgynigion

3.60 Ni wnaeth y Blaid Lafur, Plaid Cymru na Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw wrthgynigion ynghylch cyfansoddiad yr etholaethau yn yr ardal hon. Gwnaed gwrthgynnig gan y Blaid Geidwadol y dylid cynnwys adran etholiadol Maenclochog yn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire a Llangeler yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire. Am y rhesymau a roddir uchod, cytunwn, at ei gilydd, y bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod yr etholaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol.

3.61 Roedd peth gwrthwynebiad i gynnwys adran etholiadol Cenarth yn etholaeth arfaethedig Ceredigion and North Pembrokeshire: gweler er enghraifft cynrychiolaethau 407 a 426. Fodd bynnag, ni fyddai'r etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol oni bai bod adran etholiadol ychwanegol yn cael ei chynnwys ac ystyriwn mai ward Cenarth yw'r adran etholiadol fwyaf

priodol i'w chynnwys. Nodwn fod unigolion wedi gwneud gwrthgynigion a fyddai'n cynnwys nifer o adrannau etholiadol ychwanegol o fewn etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire yn etholaeth arfaethedig Ceredigion. Nid ydym yn ystyried y byddai'r gwrthgynigion hyn yn welliant ar y Cynigion Cychwynnol. Nodwn y gefnogaeth gyffredinol i'r ddwy etholaeth arfaethedig. Nodwn fod cynrychiolaethau wedi dod i law sy'n nodi y byddai cynigion o'r fath yn torri'r cysylltiadau sy'n bod rhwng yr adrannau etholiadol hynny ac ardaloedd eraill yn ne Sir Benfro: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 684, 688,700 a 703. Ni fyddem o'r herwydd yn argymhell derbyn y gwrthgynigion hyn. Rydym wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gwrthgynigion eraill wrth ddod i'n casgliadau ynghylch pa newidiadau i'w hargymhell ar y Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal hon, fel pob ardal, yng Nghymru.

Canolbarth a Gogledd Cymru

3.62 At ddibenion yr adroddiad hwn, ymdriniwn â Chanolbarth a Gogledd Cymru gyda'i gilydd gan fod elfen o orgyffwrdd rhwng yr etholaethau arfaethedig yn yr ardaloedd hyn. Cymerir bod Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru, at ddibenion yr adroddiad hwn, yn cynnwys ardaloedd awdurdodau unedol Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Powys a Wrecsam.

3.63 Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig wyth etholaeth i'r ardal hon. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire mewn tair etholaeth arfaethedig, sef etholaethau arfaethedig Gwynedd, Glyndwr and North Powys, a South Powys. Cawsom nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn ceisio cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire ac yn gwrthwynebu ei rhannu rhwng y tair etholaeth arfaethedig. Cawsom hefyd gynrychiolaethau ynghylch union gyfansoddiad etholaethau arfaethedig Gwynedd, Menai ac Ynys Môn a North Wales Coast. Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau ynghylch union gyfansoddiad etholaethau arfaethedig Wrexham, a Dee Estuary.

3.64 Yn gryno, am y rhesymau a osodir isod, argymhellwn fod:

- (1) adrannau etholiadol Glantwymyn, Llanbryn-mair, a Machynlleth yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig South Powys; argymhellwn enwi'r etholaeth hon yn Brecon, Radnor and Montgomery;**
- (2) adrannau etholiadol Aberriw, a Ffordun, yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys;**
- (3) adran etholiadol Rhiwabon, a ward De Rhiwabon yng Nghymuned Rhiwabon yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys; argymhellwn enwi'r etholaeth yn Denbigh and North Montgomeryshire;**

- (4) adrannau etholiadol Bethel, Deiniolen, Penisarwaun, ac Eglwysbach yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd;
- (5) adrannau etholiadol Pant-yr-Afon/Penmaenan, a Chapelulo yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn; argymhellwn enwi'r etholaeth honno yn Ynys Môn a Bangor;
- (6) rydym hefyd yn argymhell newidiadau i enwau etholaethau arfaethedig eraill.

3.65 Trown yn gyntaf at etholaeth bresennol Montgomeryshire. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys tair adran etholiadol o'r etholaeth hon yn etholaeth arfaethedig Gwynedd, 16 yn etholaeth arfaethedig South Powys (sydd hefyd yn cynnwys etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yn ei chyfanrwydd) a 15 yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys, ynghyd ag adrannau etholiadol o dair etholaeth bresennol arall. Fel a nodwyd gennym, cawsom nifer sylweddol o gynrychiolaethau sy'n gwrthwynebu cynnwys adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire o fewn tair etholaeth arfaethedig. Mae'r cynrychiolaethau wedi dwyn sylw, ymysg pethau eraill, at natur wledig yr etholaeth bresennol, y cysylltiadau cymunedol o fewn Montgomeryshire ac absenoldeb cysylltiadau gyda Gogledd Cymru: gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawiriadau cyhoeddus ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 150, 266, 322, 378, 400, 402, 412 a 419.

3.66 Am y rhesymau a osodir isod, nid yw'n bosibl i ni wneud achos arbennig dros gadw etholaeth bresennol Montgomeryshire yn y ffurf sydd arni gan y byddai ynddi lai o etholwyr nag a fyddir gan y Ddeddf Seneddol berthnasol. Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus y cynigion fod etholaeth bresennol Montgomeryshire yn aros yn gyfan a bod adrannau etholiadol o etholaethau eraill yn cael eu cynnwys i sicrhau bod yr etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol. Fodd bynnag, byddai gan ymagwedd o'r fath effeithiau yn sgil hynny ar yr etholaethau presennol eraill a byddai'n arwain at etholaethau na fyddai'n cynnig unrhyw welliant ar y Cynigion Cychwynnol, ac a fyddai, yn ein barn ni, yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn llai boddhaol. Er bod gennym gydymdeimlad sylweddol, felly, â'r nod o gadw etholaeth Montgomeryshire, nid ydym yn ei hystyried yn ymarferol cadw'r Montgomeryshire bresennol o fewn un etholaeth arfaethedig. Rydym, fodd bynnag, yn ystyried fod rhai newidiadau y gellir eu gwneud i'r Cynigion Cychwynnol a allai arwain at etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol.

3.67 Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig bod tair adran etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire (ac o fewn ardal awdurdod unedol Powys), sef, Machynlleth, Glantwymyn a Llanbryn-mair, yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Argymhellwn fod y tair adran etholiadol hyn yn cael eu

cynnwys yn etholaeth arfaethedig South Powys. Bydd hyn yn galluogi i'r adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire gael eu cynnwys o fewn dwy etholaeth arfaethedig, ac nid tair fel a gynigir gan y Cynigion Cychwynnol. Yn ein barn ni, mae hynny'n well dewis, ac mae'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Yn fwy na hynny, y dystiolaeth rydym wedi ei derbyn yw bod cysylltiadau presennol adrannau etholiadol Montgomeryshire, gan gynnwys y tair adran etholiadol hyn, tua'r dwyrain, a gyda chanolbarth Cymru ac adrannau etholiadol eraill Montgomeryshire, yn hytrach na thua'r gogledd gydag adrannau etholiadol o Wunedd: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 238, 322, 412, 413, 419 (er bod peth dystiolaeth fod adran etholiadol Glantwymyn yn cael ei chynnwys yn briodol o fewn etholaeth arfaethedig Gwynedd: gweler cynrychiolaeth 441). Ystyriwn y byddai cynnwys pob un o'r tair adran etholiadol yn etholaeth arfaethedig South Powys yn osgoi torri'r cysylltiadau presennol sydd ganddynt gydag adrannau etholiadol eraill yn Montgomeryshire.

3.68 Rydym hefyd yn ystyried bod cynnwys y tair adran etholiadol hyn yn etholaeth arfaethedig South Powys yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Gwynedd yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well am resymau eraill. Mae etholaeth arfaethedig Gwynedd yn cynnwys dros 50 o'r adrannau etholiadol sydd o fewn awdurdod unedol Gwynedd, ynghyd ag adrannau etholiadol o ddwy ardal awdurdod unedol arall, sef, Conwy, a Phowys. Mae'n cynnwys yr holl adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd ac adrannau etholiadol o etholaethau presennol Arfon, Aberconwy, a Montgomeryshire. Bydd cynnwys adrannau etholiadol Glantwymyn, Llanbryn-mair, a Machynlleth yn etholaeth arfaethedig South Powys yn galluogi i etholaeth arfaethedig Gwynedd gynnwys adrannau etholiadol o ddwy ardal awdurdod unedol, yn lle tair. Bydd hefyd yn galluogi i'r etholaeth arfaethedig gynnwys adrannau etholiadol o dair etholaeth bresennol, ac nid pedair. Mae hynny yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well, yn ein barn ni, na'r Cynigion Cychwynnol ar gyfer etholaeth arfaethedig Gwynedd.

3.69 Rydym hefyd wedi derbyn cynrychiolaethau y dylid cynnwys adrannau etholiadol Aberriw, a Ffordun yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig South Powys. Y dystiolaeth sydd wedi dod i law yw bod trigolion yn y ddwy adran etholiadol hyn yn edrych tua'r Trallwng am wasanaethau ac ysgolion (gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawiadau cyhoeddus ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 517, 518 a 534). Yn y glorian mae'r cynrychiolaethau a gawsom yn llethol o blaid y safbwynt fod gan adran etholiadol Aberriw gysylltiadau sy'n bod gyda'r adrannau etholiadol sy'n ffurfio tref y Trallwng ac y torrid y cysylltiadau hynny pe cynhwysid yr adran etholiadol honno yn South Powys a bod tref y Trallwng yn cael ei chynnwys mewn etholaeth wahanol: gweler, er enghraifft, 389, 411, 451, 534. Mae'r dystiolaeth yn fwy cymysg mewn perthynas ag adran etholiadol Ffordun. Ceir dystiolaeth am ei chysylltiadau presennol gyda'r Trallwng, a chefnogaeth dros ei chynnwys yn

etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 406, 493, 516 a 518. Ond mae tystiolaeth fod ei chysylltiadau gyda South Powys a'i bod yn cael ei chynnwys yn briodol yn etholaeth arfaethedig South Powys: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 150, 673 and 682. Wrth bwysu a mesur, ystyriwn fod gan adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun gysylltiadau sy'n bod gyda'r Trallwng, a gyda'r adrannau etholiadol yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys, a bod eu cynnwys yn yr etholaeth honno yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well am y byddai hynny yn osgoi newidiadau a dorrai gysylltiadau lleol sy'n bod. Nodwn hefyd, os derbynnir ein hargymhellion i gynnwys adrannau etholiadol Glantwymyn, Llanbryn-mair, a Machynlleth yn etholaeth arfaethedig South Powys, byddai'r etholaeth arfaethedig dros yr amrediad etholiadol a byddai angen gosod o leiaf un adran etholiadol mewn etholaeth arall. Byddai'r newidiadau a argymhellwn o gynnwys adrannau etholiadol Aberriw a Ffordun yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys, yn hytrach nag etholaeth South Powys fel a gynigiwyd yn y Cynigion Cychwynnol, fodd bynnag, yn datrys y broblem honno yn ogystal.

- 3.70** O ystyried y meini prawf statudol, felly, ac yn neilltuol ffiniau ac etholaethau presennol llywodraeth leol, ystyriwn fod cynnwys adrannau etholiadol Glantwymyn, Llanbryn-mair, a Machynlleth yn etholaeth arfaethedig South Powys yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol. Byddai cynnwys adrannau etholiadol Aberriw, a Ffordun yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys hefyd yn osgoi newidiadau a dorrai eu cysylltiadau lleol presennol. Argymhellwn enwi'r etholaeth hon yn Brecon, Radnor and Montgomery.
- 3.71** Mae un newid pellach rydym yn ei argymhell i etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig bod adran etholiadol Rhiwabon a ward De Rhiwabon yng Nghymuned Rhiwabon yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Wrexham Maelor (maent yn etholaeth bresennol Clwyd South). Cawsom gynrychiolaethau fod ganddynt gysylltiadau sy'n bod gydag adrannau etholiadol fel Johnstown, Penycae, Plas Madog, a Chefn (hefyd yn etholaeth bresennol Clwyd South): gweler y cynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 95, 123, 187 a 679. Derbyniwn y dystiolaeth honno. Ystyriwn y byddai cynnwys adran etholiadol Rhiwabon a ward De Rhiwabon yng Nghymuned Rhiwabon yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys yn osgoi torri'r cysylltiadau sy'n bod ganddynt gydag adrannau etholiadol yn yr etholaeth honno ac felly'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well. Nodwn hefyd y byddai'r newid argymhellid hwn yn osgoi rhannu adran etholiadol Penycae a De Rhiwabon ac ystyriwn hynny hefyd o fudd. Byddem yn enwi'r etholaeth arfaethedig yn Denbigh and North Montgomeryshire.
- 3.72** Trown yn nesaf at etholaeth arfaethedig Gwynedd. Am y rhesymau a roddir uchod, byddem yn argymhell nad yw tair adran etholiadol Glantwymyn, Llanbryn-mair, a Machynlleth yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig

hon. Golyga hynny na fyddai'r etholaeth arfaethedig yn bodloni'r amrediad etholiadol ac y byddai angen cynnwys adrannau etholiadol ychwanegol.

- 3.73** Cawsom gynrychiolaethau y dylid cynnwys adrannau etholiadol Bethel, Penisarwaun a Deiniolen yn etholaeth arfaethedig Gwynedd yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn. Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei derbyn yn nodi bod eu cysylltiadau presennol gyda Chaernarfon, yn etholaeth arfaethedig Gwynedd, yn hytrach na gyda Bangor. Mae'r cysylltiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd gyda Chaernarfon ac mae plant yn mynychu'r ysgol yng Nghaernarfon yn hytrach na Bangor: gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y cyfarfod cyhoeddus yng Nghaernarfon ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 45, 134, 269 a 523. Ystyriwn y dylid cynnwys tair adran etholiadol Bethel, Penisarwaun a Deiniolen yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Byddai hynny'n osgoi torri'r cysylltiadau sy'n bod rhyngddynt a Chaernarfon ac adrannau etholiadol eraill yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Fel a nodwyd uchod, os derbynnir yr argymhellion a wneir gennym, bydd hefyd yn angenrheidiol cynnwys adrannau etholiadol ychwanegol yn etholaeth arfaethedig Gwynedd i sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol. Mae'r tair adran etholiadol hyn yn rhai priodol i'w cynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd i'r diben hwnnw.
- 3.74** Hyd yn oed gyda'r tair adran etholiadol hyn wedi'u cynnwys, fodd bynnag, ni fyddai etholaeth arfaethedig Gwynedd yn bodloni'r amrediad etholiadol, ac mae angen cynnwys un adran etholiadol ychwanegol ati. Ystyriwn fod adran etholiadol Eglwysbach yn un briodol i'w chynnwys. Mae hi yn etholaeth bresennol Aberconwy ac yn ardal awdurdod unedol Conwy ac mae etholaeth arfaethedig Gwynedd eisoes yn cynnwys adrannau etholiadol o'r etholaeth a'r ardal honno. Ystyriwyd cynnwys adran etholiadol Y Felinheli gennym ond byddai hynny'n dal i adael etholaeth arfaethedig Gwynedd o dan yr amrediad etholiadol a byddai angen ychwanegu adran etholiadol arall. Ystyriwn ei bod yn well ychwanegu un adran etholiadol yn unig yn hytrach na dwy. Bu inni ystyried cynnwys adran etholiadol Caerhun yn yr etholaeth arfaethedig ond clywsom gynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaernarfon fod trigolion Caerhun yn edrych tua Chonwy i'r gogledd yn hytrach na Gwynedd. Yn y pen draw, nid yw'r penderfyniad pa adran etholiadol sydd i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd i sicrhau ei bod yn bodloni'r amrediad etholiadol ddim yn un hawdd ond, gyda'r cynrychiolaethau rydym wedi eu derbyn, wedi pwyso yn y glorian, argymhellwn gynnwys adran etholiadol Eglwysbach.
- 3.75** Yna trown at etholaeth Menai ac Ynys Môn. Os derbynnir y newidiadau a argymhellwn i etholaeth arfaethedig Gwynedd, ni fyddai'r etholaeth arfaethedig hon yn cwrdd â'r amrediad etholiadol. Byddai angen cynnwys adrannau etholiadol ychwanegol i sicrhau ei bod. Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau mai'r adrannau etholiadol priodol i'w cynnwys yw adrannau etholiadol Pant-yr-Afon/Penmaenan, a Chapelulo. Mae'r rhain yn etholaeth bresennol Aberconwy a nodwn fod adrannau etholiadol Bryn, a Phandy o'r

etholaeth honno wedi eu cynnwys yn barod yn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn. Ni fyddai'r newid a argymhellwn felly yn ychwanegu at nifer yr etholaethau presennol nac ardaloedd awdurdodau unedol i'w cynnwys yn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn. Rydym yn cydnabod bod cynrychiolaethau yn nodi bod gan y ddwy adran etholiadol hyn gysylltiadau presennol gyda Chonwy, a Llandudno, y mae'r Cynigion Cychwynnol yn eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig North Wales Coast: gweler y cynrychiolaethau a wnaed yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaernarfon ac, er enghraifft, cynrychiolaeth 526. Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol, yn y pen draw, fod etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn yn bodloni'r amrediad etholiadol. Ystyriwn fod y ddwy adran etholiadol hyn yn rhai priodol i'w cynnwys yn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn. Nid ydym yn ystyried y byddai'n fwy priodol cynnwys adrannau etholiadol eraill. Drwodd a thro, wrth ystyried yr holl newidiadau a argymhellwn ar gyfer etholaethau arfaethedig Gwynedd, Glyndwr and North Powys, South Powys, North Wales Coast, a Menai ac Ynys Môn, rydym yn fodlon y bydd y newidiadau a argymhellir gennym yn arwain at etholaethau sydd yn bodloni'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol. Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn yn cael ei henwi'n Ynys Môn a Bangor.

- 3.76** Ar wahân i'r newidiadau a argymhellir uchod, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion eraill dros newidiadau i gyfansoddiad etholaethau arfaethedig North Wales Coast, a Wrexham Maelor. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r etholaethau arfaethedig hyn. Rydym yn argymhell, fodd bynnag, eu bod yn cael eu henwi'n Conwy and Colwyn, ac yn Wrexham. Nid ydym yn argymhell unrhyw newid i etholaeth arfaethedig Dee Estuary ar wahân ei bod yn cael ei henwi'n Flint. Nid ydym yn argymhell unrhyw newid i etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside.

Y Prif Wrthgynigion

- 3.77** Ystyriwn yn fyr rai o'r gwrthgynigion ar gyfer etholaethau yn ardal Canolbarth a Gogledd Cymru. Gwnaeth y Blaid Lafur wrthgynigion ar gyfer nifer o'r etholaethau arfaethedig. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn darparu ar gyfer etholaeth Alyn and Deeside sy'n cynnwys adrannau etholiadol o un ardal awdurdod unedol (Sir y Fflint) a dwy etholaeth bresennol (yr Alyn and Deeside bresennol yn ei chyfanrwydd, ac adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Delyn). Mewn gwrthgyferbyniad, mae gwrthgynigion y Blaid Lafur ar gyfer etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside sy'n cynnwys adrannau etholiadol o dair (yn hytrach na dwy) etholaeth bresennol a dwy (yn hytrach nag un) ardal awdurdod unedol. Ystyriwn fod y Cynigion Cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r gwrthgynigion hyn yn achos yr etholaeth arfaethedig hon. Mae'r Blaid Lafur hefyd yn cynnig etholaeth Wrexham South na fyddai'n cynnwys adrannau etholiadol Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt, a'r Orsedd. Y dystiolaeth rydym wedi ei chael yw bod gan yr adrannau etholiadol hyn gysylltiadau sy'n

bod gydag adrannau etholiadol yn etholaeth arfaethedig Wrexham Maelor a gynigir yn y Cynigion Cychwynnol (gweler y cynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam ac, er enghraifft, cynrychiolaeth 155). Ystyriwn fod y Cynigion Cychwynnol yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r gwrthgynigion hyn o ran yr etholaeth arfaethedig hon. Byddai'r gwrthgynigion yn cadw etholaeth bresennol Delyn ond byddai angen o hyd i gyfuno'r adrannau etholiadol yn yr etholaeth honno gydag wyth adran etholiadol o ardal unedol Sir Ddinbych gan gynnwys tref Prestatyn. Gwnaed cynnig tebyg gan AS etholaeth bresennol Delyn mewn perthynas ag etholaeth bresennol Delyn yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam. Mae etholaeth arfaethedig Delyn yn cynnwys adrannau etholiadol o ddwy etholaeth bresennol a dwy ardal awdurdod unedol. Mae gan y gwrthgynnig un budd drwy ei fod yn cadw holl adrannau etholiadol etholaeth bresennol Delyn mewn un etholaeth ond gwrthbwysir hynny, yn ein barn ni, gan effeithiau dilynol y gwrthgynnig yn ei gyfanrwydd ar etholaethau arfaethedig eraill. O edrych ar y gwrthgynigion yn gyfan, nid ydym yn ystyried bod yr agwedd hon ar y gwrthgynnig yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol.

3.78 Mae gwrthgynigion y Blaid Lafur hefyd yn cynnwys etholaeth arfaethedig Aberconwy and North Powys sy'n mynd o Landudno ar arfordir Gogledd Cymru i'r Trallwng yn y Canolbarth. Mae'r gwrthgynnig hwn yn cynnwys adrannau etholiadol o'r un nifer o etholaethau ac ardaloedd awdurdod unedol presennol â'r Cynigion Cychwynnol ac felly heb gynnig unrhyw welliant yn hynny o beth. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae ganddo anfanteision sylweddol. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig etholaeth North Wales Coast wedi ei gwneud o adrannau etholiadol yn gyfan gwbl o un ardal awdurdod unedig, Conwy. Rydym wedi argymhell peth newidiadau i'r etholaeth hon ond, yn y bôn, ystyriwn fod etholaeth arfaethedig wedi ei gwneud o adrannau etholiadol yn gyfan gwbl o ardal awdurdod unedol Conwy yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn dda. Mae'r gwrthgynnig hwn, fodd bynnag, yn cynnwys rhai adrannau etholiadol o'r etholaeth a argymhellwn ni yn yr etholaeth Aberconwy and North Powys a awgrymir, a rhai o fewn dwy etholaeth eraill. Ni fyddai, o dan y gwrthgynnig hwn, etholaeth wedi ei gwneud yn gyfan gwbl o adrannau etholiadol o Gonwy. Ymhellach, byddai'r gwrthgynnig, yn ein barn ni, yn torri'r cysylltiadau rhwng adrannau etholiadol fel Conwy, a Chaerhun a'r adrannau etholiadol sy'n ffurfio Llandudno. Yn ein barn ni, mae'r Cynigion Cychwynnol, a'r Cynigion Cychwynnol gyda'r newidiadau a argymhellir gennym ni, yn bodloni'r meini prawf statudol yn llawer gwell na'r gwrthgynigion hyn.

3.79 Mae'r Blaid Lafur hefyd yn gwneud gwrthgynigion ar gyfer etholaethau arfaethedig Gwynedd, a Menai ac Ynys Môn. Cytunwn y dylid cynnwys adrannau etholiadol Capelulo, a Phant-yr-Afon/Penmaenan yn etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn ac adrannau etholiadol Bethel, Deiniolen, a Phenisarwaun yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Mae gwrthgynigion y Blaid Lafur hefyd yn cynnwys newidiadau i adrannau etholiadol eraill yn

etholaethau arfaethedig North Wales Coast, a Gwynedd ond nid ydym yn ystyried y byddai'r rhain yn cynnig unrhyw welliant pellach ac nid ydym yn eu hargymell.

3.80 Nid yw Plaid Cymru yn gwneud unrhyw wrthgynigion mewn perthynas â chyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yn yr ardal hon. Gwrthgynigion Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Geidwadol ar gyfer yr ardal hon yw bod adrannau etholiadol Aberriw, a Ffordun yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys yn hytrach nag etholaeth arfaethedig South Powys. Rydym wedi argymell newidiadau ar gyfer y ddwy etholaeth hyn a fydd yn cynnwys y newidiadau hyn.

3.81 Ystyriwn yn fyr wrthgynigion eraill. Rydym wedi cael cynrychiolaethau fod gan adrannau etholiadol fel Cilcain, Y Waun, Helygain, a Chaerwys gysylltiadau gyda thref Yr Wyddgrug ac y dylid eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside (yn hytrach na chynnig y Cynigion Cychwynnol eu bod yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dee Estuary): gweler y cynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Wrecsam ac, er enghraifft, cynrychiolaeth 249. Er ein bod yn deall y pryderon, mae gan etholaeth arfaethedig Alyn and Deeside 80,268 o etholwyr a byddai cynnwys adrannau etholiadol ychwanegol yn peri iddi fynd dros yr amrediad etholiadol a ganiateir. Nid ydym felly yn argymell unrhyw newidiadau i etholaethau arfaethedig Alyn and Deeside, na Dee Estuary. Cawsom hefyd gynrychiolaethau y dylid cynnwys wardiau Aberoer a Phentrebychan yng Nghymuned Esclusham yn etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys: gweler cynrychiolaethau 483 a 670. Mae gennym gydymdeimlad sylweddol â'r gwrthgynnig hwn gan y byddai'n osgoi rhannu adran etholiadol rhwng dwy etholaeth. Fodd bynnag, os derbynnir y newidiadau a argymhellwn i etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys, byddai ychwanegu'r wardiau hyn yn peri i'r etholaeth arfaethedig fynd dros yr amrediad etholiadol a ganiateir. Gwaetha'r modd, felly, nid ydym yn argymell derbyn y gwrthgynnig hwn. Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau y dylid cynnwys adrannau etholiadol fel Aber-Craf, ac Ystradgynlais yn etholaeth arfaethedig Neath yn hytrach nag yn etholaeth arfaethedig South Powys: gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 529, 531, 579 a 616. Ar hyn o bryd mae'r adrannau etholiadol hyn yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire, y mae'r cyfan ohoni i'w gynnwys yn etholaeth arfaethedig South Powys. Mae'r adrannau etholiadol hefyd o fewn ardal awdurdod unedol Powys ac nid awdurdod unedol Castell-nedd Port Talbot. O gofio ffiniau presennol llywodraeth leol ac etholaethau, ystyriwn fod y Cynigion Cychwynnol ar gyfer adrannau etholiadol Aber-Craf, ac Ystradgynlais yn adlewyrchu'r meini prawf statudol ar gyfer yr adrannau etholiadol hyn ac ni fyddem yn derbyn yr argymhellion.

3.82 Mae grŵp o wylwyr academiaidd wedi gwneud gwrthgynigion ar gyfer yr ardal hon (cynrychiolaeth 409). Maent wedi cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau i etholaethau arfaethedig North Wales Coast, Menai ac Ynys Môn, Gwynedd,

a South Powys sy'n debyg i'r rhai a argymhellwn ni (ar wahân eu bod yn cynnwys un adran etholiadol wahanol, Uwchaled, yn hytrach nag Eglwysbach, yn etholaeth arfaethedig Gwynedd). Am y rhesymau a roddir uchod, ystyriwn fod y newidiadau a argymhellwn yn sicrhau bod yr etholaethau hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well a chredwn, ar gyfartaledd mai adran etholiadol Eglwysbach yw'r adran etholiadol ychwanegol briodol i'w chynnwys yn etholaeth arfaethedig Gwynedd. Byddai'r gwrthgynnig ar gyfer cynnwys adran etholiadol Uwchaled yn arwain at gynnwys adran etholiadol o bedwaredd etholaeth bresennol, ychwanegol yn etholaeth arfaethedig Gwynedd.

3.83 Mae'r gwrthgynigion hyn yna'n cynnig newidiadau ar gyfer gweddill yr etholaethau yng Ngogledd Cymru. Nid ydym yn ystyried bod yr agweddau hyn ar y gwrthgynigion yn cynnig gwelliant ar y Cynigion Cychwynnol ac ystyriwn, mewn nifer o agweddau, y byddent yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn llai boddhaol na'r Cynigion Cychwynnol. Er enghraifft, mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnig etholaeth Wrexham Maelor gydag adrannau etholiadol wedi'u cymryd yn gyfan o un ardal awdurdod unedol a dwy etholaeth bresennol. Mae'r gwrthgynigion hyn yn cynnig etholaeth Wrexham wedi ei gwneud o adrannau etholiadol o ddau awdurdod unedol a thair etholaeth bresennol. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn cynnwys holl adrannau etholiadol etholaeth bresennol Alyn and Deeside mewn un etholaeth arfaethedig, lle bo'r gwrthgynigion yn eu cynnwys mewn dwy. Mae gan y Cynigion Cychwynnol adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Delyn o fewn dwy etholaeth arfaethedig lle bo'r gwrthgynigion yn eu cynnwys mewn tair. Fel a nodwyd uchod, nid ydym yn ystyried bod y gwrthgynigion hyn yn adlewyrchu'r meini prawf statudol yn well na'r Cynigion Cychwynnol ac ni fyddem yn eu derbyn. Rydym wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gwrthgynigion eraill wrth ddod i'n casgliadau ar ba newidiadau i'w hargymhell ar y Cynigion Cychwynnol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal hon, fel ym mhob ardal, yng Nghymru.

3.84 Er mwyn bod yn gyflawn, nodwn fod y Comisiwn wedi datgan ym mharagraff 6.146 dogfen y Cynigion Cychwynnol fod Yr Wyddgrug wedi bod yng nghyn-ddosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy. Nid oedd hynny'n gywir a gosododd y Comisiwn gywiriad ar ei wefan a chadarnhawyd ar ddechrau pob un o'r gwrandawiadau cyhoeddus nad oedd hynny'n gywir. Wrth ystyried ein hargymhellion, rydym wedi mynd yn ein blaenau ar y sail nad oedd Yr Wyddgrug yng nghyn-ddosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy.

3.85 Nodwn fod rhai cynrychiolaethau wedi gofyn am wneud achos arbennig i gadw etholaethau presennol Montgomeryshire, ac Ynys Môn fel etholaethau ar wahân er y byddai ganddynt lai o etholwyr na'r hyn sydd angen (gweler, er enghraifft, cynrychiolaethau 22 a 419). Maent wedi tynnu sylw at y ffaith fod darpariaethau arbennig, er enghraifft, yn eu lle ar gyfer Ynys Wyth, ac Orkney a Shetland. Mae'r Ddeddf Seneddol berthnasol yn darparu ar gyfer eithriadau penodol i bedair etholaeth (pob un y tu allan i Gymru). Mae'r Ddeddf yn

mynnu bod pob etholaeth yng Nghymru yn cynnwys rhwng 72,810 a 80,473 o etholwyr. Nid oes eithriad wedi ei wneud yn y Ddeddf i etholaethau yng Nghymru fel sydd ar gyfer etholaethau eraill. O'r herwydd, ni chaniateir o dan y ddeddfwriaeth bresennol fod yna etholaethau ar gyfer Montgomeryshire, nac Ynys Môn sydd â llai o etholwyr na'r amrediad etholiadol a ganiateir.

Enwau

- 3.86** Rydym yn cydnabod bod enwau etholaethau yn bwysig am nifer o resymau. Maent yn aml yn adnabod yr ardaloedd daearyddol sydd wedi'u cynnwys mewn etholaeth. Maent yn aml yn adlewyrchu enwau hanesyddol. Yn ddelfrydol, dylai'r enwau fod yn rhai y gall yr etholwyr uniaethu'n rhwydd â hwy. Rydym wedi derbyn nifer o gynrychiolaethau ynghylch enwau priodol i'r etholaethau arfaethedig. Yn aml, cafwyd consensws fod enw neilltuol ar etholaeth neilltuol yn amhriodol ond llai o gytuno ar ba enw i'w roi ar etholaeth arfaethedig. Argymhellwn y newidiadau canlynol i enwau 15 o'r etholaethau arfaethedig a gyflwynwyd yn y Cynigion Cychwynnol. Er hwylustod, rydym wedi ymdrin â hwy yn y drefn y cyflwynir yr etholaethau arfaethedig ym mhennod 6 y cynigion Cychwynnol. Rydym yn cydnabod na fydd pawb yn cytuno â'n hargymhellion. Rydym, fodd bynnag, wedi ceisio adlewyrchu polisi'r Comisiwn ar enwau, daearyddiaeth ardal neilltuol, a rhoi ystyriaeth cyn belled ag y bo'n bosibl i'r cynrychiolaethau a gawsom.
- 3.87** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Menai ac Ynys Môn yn cael ei henwi yn Ynys Môn a Bangor. Bangor yw'r ganolfan boblogaeth fwyaf yn yr etholaeth arfaethedig a chafwyd sylwadau y dylai'r enw adlewyrchu hynny; gweler, er enghraifft, sylwadau 99 a 475. Ymddengys yn briodol i ni fod enw'r etholaeth arfaethedig yn cydnabod Ynys Môn, ynys ar wahân sy'n rhoi'r nifer fwyaf o etholwyr, a Bangor, y ganolfan boblogaeth fwyaf. Argymhellwn felly fod yr etholaeth arfaethedig newydd yn cael ei henwi yn **Ynys Môn a Bangor**.
- 3.88** Argymhellwn enwi etholaeth arfaethedig South and West Pembrokeshire yn **South Pembrokeshire**. Yn ein barn ni, mae South Pembrokeshire yn disgrifio'n gywir ardal ddaearyddol yr etholaeth.
- 3.89** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Neath yn cael ei henwi'n Neath and the Swansea Valley. Mae'r etholaeth bresennol yn cynnwys dwy ardal amlwg, Castell-nedd, a rhannau o Gwm Tawe. Bydd y newidiadau arfaethedig i'r etholaeth, gydag adrannau etholiadol Clydach, a Mawr, a Chymuned Birchgrove yn arwain at ran fawr o Gwm Tawe yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth. Ystyriwn ei bod yn briodol adlewyrchu'r ddwy ardal amlwg hyn yn enw'r etholaeth arfaethedig. O'r herwydd rydym yn argymhell bod yr etholaeth arfaethedig yn cael ei henwi'n **Neath and the Swansea Valley**.
- 3.90** Roedd y Cynigion Cychwynnol yn cynnig etholaethau Cardiff Central and Penarth, Cardiff East, Caerphilly and Cardiff North, a Newport West and Sirhowy Valley. Fel yr eglurwyd uchod, rydym yn argymhell fod cyfansoddiad yr

etholaethau hyn yn cael ei newid yn sylweddol. Os derbynnir ein hargymhellion, yna rydym yn argymhell yr enwau canlynol ar gyfer y pedair etholaeth a argymhellir gennym. Byddant yn cymryd lle enwau'r pedair etholaeth a gynigiwyd yn y Cynigion Cychwynnol.

- 3.91** Mae un o'r etholaethau a argymhellir gennym yn cynnwys 11 o 12 adran etholiadol etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth (gweler paragraff 3.7 uchod). Nodwn mai polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, pan fo etholaethau yn aros heb newid i raddau helaeth, y dylid fel arfer cadw enw'r etholaeth bresennol: gweler paragraff 2.21 y Cynigion Cychwynnol. Gan fod yr etholaeth bresennol i raddau helaeth yn cael ei chadw, argymhellwn fod yr etholaeth a ddisgrifir ym mharagraff 3.7 uchod yn cael ei henwi'n **Cardiff South and Penarth**.
- 3.92** Mae un o'r etholaethau a argymhellir gennym yn cynnwys pump o'r chwe ward yn etholaeth bresennol Cardiff Central (gweler paragraff 3.8 uchod). Gan y bydd yr etholaeth argymelledig honno heb newid i raddau helaeth o'r etholaeth bresennol, argymhellwn ei bod yn cael ei henwi'n **Cardiff Central**.
- 3.93** Mae un o'r etholaethau a argymhellir gennym yn cynnwys 11 adran etholiadol o etholaeth bresennol Caerphilly (gweler paragraff 3.12 uchod). Gan y bydd yr etholaeth argymelledig honno heb newid i raddau helaeth o'r etholaeth bresennol, argymhellwn ei bod yn cael ei henwi'n **Caerphilly**.
- 3.94** Mae un o'r etholaethau a argymhellir gennym yn cynnwys pum adran etholiadol o etholaeth bresennol Cardiff North ac ystyriwn ei bod yn briodol adlewyrchu hynny yn enw'r etholaeth a argymhellir gennym. Mae'r etholaeth a argymhellir hefyd yn cynnwys dwy adran etholiadol o ardal awdurdod unedol Caerffili ac sydd yn etholaeth bresennol Islwyn. Mae pedair o ardal awdurdod unedol Casnewydd ac yn etholaeth bresennol Newport West (gweler paragraff 3.15 uchod). Dylai'r enw, yn ein barn ni, adlewyrchu'r ffaith fod yr etholaeth a argymhellir gennym yn cynnwys ardaloedd sy'n ychwanegol at Cardiff North. Nid oes consensws wedi bod ar enwau yn y cynrychiolaethau a wnaed inni. Wrth bwysu a mesur, ystyriwn mai enw priodol ar gyfer yr etholaeth a argymhellir gennym fyddai **Cardiff North and West Gwent** ac argymhellwn yr enw hwn yn unol â hynny.
- 3.95** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Newport Central yn cael ei henwi'n Newport. Mae gan yr etholaeth a argymhellir gennym saith adran etholiadol yr un o etholaethau presennol Newport East, a Newport West. Yn ein barn ni, mae'n briodol enwi'r etholaeth yn Newport. Ymhellach, roedd y Cynigion Cychwynnol yn cynnig dwy etholaeth gyda Newport yn yr enw, un etholaeth Newport West and Sirhowy Valley, a Newport Central, ac roedd angen gwahaniaethu rhyngddynt. Gan nad ydym yn argymhell etholaeth Newport West and Sirhowy Valley, nid yw'n angenrheidiol bellach i wahaniaethu enw ein hetholaeth Newport argymelledig ni oddi wrth unrhyw etholaeth arall. Felly argymhellwn alw'r etholaeth hon yn **Newport**.

- 3.96** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Heads of the Valleys yn cael ei henwi'n Merthyr Tydfil and Lower Cynon. Bydd yr etholaeth a argymhellir gennym yn cynnwys tref Merthyr Tudful a rhan isaf Cwm Cynon ac ymddengys i ni'n briodol cynnwys y ddwy ardal yn enw'r etholaeth. Rydym yn cydnabod bod etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth a argymhellir gennym. Rydym yn cydnabod nad yw "Rhymni" yn cael ei gynnwys yn yr enw a argymhellir gennym. Wrth bwysu a mesur, ystyriwn y byddai cynnwys "Rhymni" yn gwneud yr enw'n rhy hir. Wrth bwysu a mesur, felly, argymhellwn fod yr etholaeth yn cael ei henwi'n **Merthyr Tydfil and Lower Cynon**.
- 3.97** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Rhondda yn cael ei henwi'n Rhondda and Aberdare. Ystyriwn fod yr enw hwn yn briodol gan ei fod yn adlewyrchu'r ffaith fod yr etholaeth a argymhellir gennym yn cynnwys y rhan fwyaf o Gwm Rhondda (a phob un ond un o'r adrannau etholiadol yn etholaeth bresennol Rhondda) a hefyd yr adrannau etholiadol a ystyrir yn gyffredinol yn ffurfio tref Aberdâr. Argymhellwn felly fod yr etholaeth yn cael ei galw'n **Rhondda and Aberdare**.
- 3.98** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig South Powys yn cael ei henwi'n Brecon, Radnor and Montgomery. Cynhwysir etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yn gyfan yn etholaeth arfaethedig South Powys. Hefyd wedi eu cynnwys yn yr etholaeth a argymhellir gennym y mae 17 o adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire. Rydym wedi cael cynrychiolaethau cryfion os na ellid cadw etholaeth bresennol Montgomeryshire, yna bod o leiaf enw'r etholaeth arfaethedig yn adlewyrchu'r ffaith fod rhan sylweddol ohoni yn cynnwys adrannau etholiadol o etholaeth bresennol Montgomeryshire ac y dylid hefyd gydnabod pob un o'r siroedd hanesyddol (Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed, a Sir Drefaldwyn) mewn rhyw ffordd yn yr enw: gweler y cynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yn Llandrindod ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 358, 378 a 493. Rydym yn ystyried, wrth bwysu a mesur, y byddai enw priodol yn cynnwys enwau trefi sirol yr hen Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn gan fod pob un ohonynt yn yr etholaeth arfaethedig. Argymhellwn felly fod yr etholaeth yn cael ei henwi'n **Brecon, Radnor and Montgomery**.
- 3.99** Argymhellwn y dylid enwi etholaeth arfaethedig Glyndwr and North Powys yn Denbigh and North Montgomeryshire. Cawsom gynrychiolaethau yn sôn na fyddai'r etholwyr yn uniaethu gyda'r enw a gynigir yn y Cynigion Cychwynnol. Yn ein barn ni, byddai enw priodol yn adlewyrchu'r ffaith fod yr etholaeth a argymhellir gennym yn cynnwys tref Dinbych, tref sirol Sir Ddinbych (ac mae nifer fawr o adrannau etholiadol o Sir Ddinbych wedi'u cynnwys yn yr etholaeth a argymhellir gennym). Rydym hefyd yn ystyried y dylid cynnwys enw hanesyddol Sir Drefaldwyn yn yr enw. Rydym yn cydnabod y bydd yr etholaeth a argymhellir gennym yn cynnwys adrannau etholiadol o ardaloedd awdurdod unedol Conwy, a Wrecsam. Fodd bynnag, cynhwysir y ddau enw hynny mewn argymhellion ar gyfer etholaethau arfaethedig eraill. Am y

rhesymau hynny argymhellwn fod yr etholaeth yn cael ei henwi'n **Denbigh and North Montgomeryshire**.

- 3.100** Argymhellwn y dylid enwi etholaeth arfaethedig Wrexham Maelor yn Wrexham. Mae'r holl adrannau etholiadol yn dod o ardal awdurdod unedol Wrexham. Ystyriwn fod yr enw Wrexham yn adlewyrchu'n briodol gyfansoddiad yr etholaeth a argymhellir gennym a bod ychwanegu "Maelor" yn ddiangen. O'r herwydd rydym yn argymhell enwi'r etholaeth arfaethedig yn **Wrexham**.
- 3.101** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig Dee Estuary yn cael ei henwi'n Flint. Rydym wedi derbyn cynrychiolaethau sy'n esbonio nad yw Dee Estuary yn enw addas. Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys adrannau etholiadol o ardaloedd awdurdod unedol Sir y Fflint, a thref sirol Y Fflint, er ein bod yn cydnabod ei bod hefyd yn cynnwys adrannau etholiadol o ogledd Sir Ddinbych. Wrth bwysu a mesur, ystyriwn fod enw tref sirol y sir sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r etholaeth yn enw addas ar yr etholaeth. Argymhellwn mai enw'r etholaeth arfaethedig yw **Flint**.
- 3.102** Argymhellwn fod etholaeth arfaethedig North Wales Coast yn cael ei henwi'n Conwy and Colwyn. Cawsom nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu i'r enw, "North Wales Coast": gweler y cynrychiolaethau yn y gwrandawriad cyhoeddus yng Nghaernarfon ac, er enghraifft, cynrychiolaethau 663, 671 a 712. Nid yw'r etholaeth arfaethedig ychwaith yn cynnwys holl arfordir Gogledd Cymru. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn awgrymu'r enw 'Conwy and Colwyn' am fod hwnnw'n adlewyrchu'n well ardal ddaearyddol yr etholaeth arfaethedig a dwy o'r prif ganolfannau yn yr etholaeth arfaethedig: gweler, er enghraifft, cynrychiolaeth 712. Argymhellwn fod yr etholaeth arfaethedig yn cael ei galw yn **Conwy and Colwyn**.
- 3.103** Nid ydym yn gwneud argymhellion ynghylch enwau etholaethau Gwynedd, Ceredigion and North Pembrokeshire, Caerfyrddin, Llanelli, Gower and Swansea West, Swansea East, Aberavon and Ogmore, Bridgend, The Vale of Glamorgan, Cardiff West, Monmouthshire, Torfaen, Blaenau Gwent, Pontypridd, ac Alyn and Deeside. Cawsom gynrychiolaethau mewn perthynas ag enwau rhai o'r etholaethau arfaethedig hyn ac rydym wedi'u hystyried. Yn y pen draw, ystyriwn fod yr enwau a gynigiwyd yn y Cynigon Cychwynnol yn llawn mor addas â'r rhai a gynigiwyd yn y cynrychiolaethau a ddaeth i law, neu'n fwy addas na hwy. O'r herwydd nid ydym am argymhell unrhyw newidiadau i enwau'r 15 etholaeth arfaethedig hyn.
- 3.104** Mae enwau rhai o'r etholaethau arfaethedig yn Gymraeg, rhai yn Saesneg ac mae gan rai Gymraeg a Saesneg yn enw'r etholaeth arfaethedig. Nodwn ein bod wedi derbyn sylwadau gan gyn Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r perwyl lle cynigid enw Saesneg, yna dylai'r Comisiwn wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud Gorchymyn i ddefnyddio ei rymoedd o dan adran 25 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i roi dewis arall o enw yn Gymraeg. Roedd y sylwadau gan

gyn Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn esbonio nad oedd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol arfer y grym hwnnw i roi dewis arall o enw yn Saesneg ar etholaeth sydd ag enw Cymraeg yn unig. Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ar y mater hwn ond rydym yn tynnu sylw'r Comisiynwyr at y sylwadau a wnaed i ni.

Casgliad

3.105 Rydym wedi argymhell yr hyn a ystyriwn yn newidiadau mawr i gyfansoddiad chwech o'r etholaethau arfaethedig a newidiadau sylweddol a phwysig, ond mwy cyfyngedig, i gyfansoddiad 14 o'r etholaethau arfaethedig. Rydym wedi argymhell peidio â newid dim ar 10 o'r etholaethau arfaethedig. Rydym wedi argymhell newidiadau i enwau 15 o'r etholaethau arfaethedig. Dangosir yr etholaethau rydym yn eu hargymhell, gyda'r enwau rydym yn eu hargymhell arnynt, yn nhrefn yr wyddor yn Atodiad A.

Atodiad A: Etholaethau Arfaethedig yn ôl Ardal Etholiadol a Nifer Etholwyr

Aberavon and Ogmore CC – 73,895 o etholwyr (Pen-y-bont ar Ogwr – PBO a Castell-nedd Port Talbot – CNPT)

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Betws	PBO	1,603	Ogmore
Melin Ifan Ddu	PBO	1,883	Ogmore
Blaengarw	PBO	1,314	Ogmore
Caerau	PBO	5,115	Ogmore
Llangeinor	PBO	924	Ogmore
Llangynwyd	PBO	2,329	Ogmore
Dwyrain Maesteg	PBO	3,833	Ogmore
Gorllewin Maesteg	PBO	4,342	Ogmore
Nant-y-moel	PBO	1,747	Ogmore
Ogmore Vale	PBO	2,335	Ogmore
Pontycymmer	PBO	1,770	Ogmore
Ynysawdre	PBO	2,554	Ogmore
Aberafan	CNPT	4,151	Aberavon
Baglan	CNPT	5,541	Aberavon
Dwyrain Llansawel	CNPT	2,317	Aberavon
Gorllewin Llansawel	CNPT	2,172	Aberavon
Bryn a Chwmafan	CNPT	5,137	Aberavon
Cymmer	CNPT	2,171	Aberavon
Glyncorwg	CNPT	870	Aberavon
Gwynfi	CNPT	1,054	Aberavon
Margam	CNPT	2,294	Aberavon
Port Talbot	CNPT	4,368	Aberavon
Sandfields East	CNPT	5,160	Aberavon
Sandfields West	CNPT	5,079	Aberavon
Tai Bach	CNPT	3,832	Aberavon

Alyn and Deeside CC – 80,268 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Aston	Sir y Fflint	2,456	Alyn and Deeside
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	Sir y Fflint	1,702	Alyn and Deeside
De Brychdyn	Sir y Fflint	2,807	Alyn and Deeside
Dwyrain Bistre Bwcle	Sir y Fflint	2,775	Alyn and Deeside
Gorllewin Bistre Bwcle	Sir y Fflint	3,337	Alyn and Deeside
Mynydd Bwcle	Sir y Fflint	2,216	Alyn and Deeside
Pentrobin Bwcle	Sir y Fflint	3,529	Alyn and Deeside
Caergwrlle	Sir y Fflint	1,274	Alyn and Deeside
Canol Cei Conna	Sir y Fflint	2,411	Alyn and Deeside
Cei Conna Golftyn	Sir y Fflint	3,924	Alyn and Deeside
De Cei Conna	Sir y Fflint	4,366	Alyn and Deeside

Cei Conna Gwepre	Sir y Fflint	1,662	Alyn and Deeside
Ewlo	Sir y Fflint	4,092	Alyn and Deeside
Penarlâg	Sir y Fflint	1,503	Alyn and Deeside
Higher Kinnerton	Sir y Fflint	1,279	Alyn and Deeside
Yr Hôb	Sir y Fflint	1,972	Alyn and Deeside
Llanfynydd	Sir y Fflint	1,462	Alyn and Deeside
Mancot	Sir y Fflint	2,639	Alyn and Deeside
Pen-y-ffordd	Sir y Fflint	3,002	Alyn and Deeside
Queensferry	Sir y Fflint	1,410	Alyn and Deeside
Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	Sir y Fflint	937	Alyn and Deeside
Saltney Stonebridge	Sir y Fflint	2,665	Alyn and Deeside
Sealand	Sir y Fflint	2,120	Alyn and Deeside
Dwyrain Shotton	Sir y Fflint	1,416	Alyn and Deeside
Shotton Uchaf	Sir y Fflint	1,739	Alyn and Deeside
Gorllewin Shotton	Sir y Fflint	1,499	Alyn and Deeside
Treuddyn	Sir y Fflint	1,291	Alyn and Deeside
Argoed	Sir y Fflint	2,201	Delyn
Gwernymynydd	Sir y Fflint	1,355	Delyn
Coed Llai	Sir y Fflint	1,590	Delyn
Broncoed Yr Wyddrug	Sir y Fflint	1,982	Delyn
Dwyrain Yr Wyddrug	Sir y Fflint	1,536	Delyn
De Yr Wyddrug	Sir y Fflint	2,101	Delyn
Gorllewin Yr Wyddrug	Sir y Fflint	1,908	Delyn
New Brighton	Sir y Fflint	2,415	Delyn
Llaneurgain	Sir y Fflint	2,424	Delyn
Northop Hall	Sir y Fflint	1,271	Delyn

Blaenau Gwent CC – 77,304 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Abertyleri	Blaenau Gwent	3,421	Blaenau Gwent
Badminton	Blaenau Gwent	2,544	Blaenau Gwent
Beaufort	Blaenau Gwent	2,976	Blaenau Gwent
Y Blaenau	Blaenau Gwent	3,605	Blaenau Gwent
Brynmaur	Blaenau Gwent	4,212	Blaenau Gwent
Cwm	Blaenau Gwent	3,419	Blaenau Gwent
Cwmtylleri	Blaenau Gwent	3,667	Blaenau Gwent
Gogledd Glynebwy	Blaenau Gwent	3,467	Blaenau Gwent
De Glynebwy	Blaenau Gwent	3,021	Blaenau Gwent
Georgetown	Blaenau Gwent	2,668	Blaenau Gwent
Llanhilleth	Blaenau Gwent	3,686	Blaenau Gwent
Nantyglo	Blaenau Gwent	3,491	Blaenau Gwent
Rassau	Blaenau Gwent	2,494	Blaenau Gwent
Sirhowi	Blaenau Gwent	4,387	Blaenau Gwent
Six Bells	Blaenau Gwent	1,878	Blaenau Gwent
Canol a Gorllewin Tredegar	Blaenau Gwent	4,581	Blaenau Gwent
Argoed	Caerffili	1,912	Islwyn
Y Coed Duon	Caerffili	6,168	Islwyn
Cefn Fforest	Caerffili	2,742	Islwyn

Crymlyn	Caerffili	4,334	Islwyn
Trecelyn	Caerffili	4,685	Islwyn
Penmaen	Caerffili	3,946	Islwyn

Brecon, Radnor and Montgomery CC – 79,965 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Aber-craf	Powys	1,140	Brecon and Radnorshire
Bugeildy	Powys	1,106	Brecon and Radnorshire
Bronllys	Powys	967	Brecon and Radnorshire
Llanfair-ym-Muallt	Powys	1,904	Brecon and Radnorshire
Bwlch	Powys	739	Brecon and Radnorshire
Crucywel	Powys	2,243	Brecon and Radnorshire
Cwm-twrch	Powys	1,610	Brecon and Radnorshire
Dyserth a Threcoed	Powys	1,001	Brecon and Radnorshire
Felin-fach	Powys	1,097	Brecon and Radnorshire
Clas-ar-Wy	Powys	1,761	Brecon and Radnorshire
Gwernyfed	Powys	1,188	Brecon and Radnorshire
Y Gelli	Powys	1,243	Brecon and Radnorshire
Trefyclo	Powys	2,295	Brecon and Radnorshire
Llanafanfawr	Powys	1,134	Brecon and Radnorshire
Llanbadarn Fawr	Powys	861	Brecon and Radnorshire
Dwyrain / Gorllewin Llandrindod	Powys	940	Brecon and Radnorshire
Gogledd Llandrindod	Powys	1,469	Brecon and Radnorshire
De Llandrindod	Powys	1,563	Brecon and Radnorshire
Llanelwedd	Powys	959	Brecon and Radnorshire
Llangatwg	Powys	799	Brecon and Radnorshire
Llangors	Powys	879	Brecon and Radnorshire

Llangynllo	Powys	1,021	Brecon and Radnorshire
Llangynidr	Powys	829	Brecon and Radnorshire
Llanwrtyd	Powys	1,463	Brecon and Radnorshire
Llanllyr	Powys	915	Brecon and Radnorshire
Maescar/Llywel	Powys	1,367	Brecon and Radnorshire
Nantmel	Powys	1,197	Brecon and Radnorshire
Pencraig	Powys	1,311	Brecon and Radnorshire
Llanandras	Powys	2,177	Brecon and Radnorshire
Rhaeadr Gwy	Powys	1,607	Brecon and Radnorshire
St. David Fewnol	Powys	1,162	Brecon and Radnorshire
St. John	Powys	2,605	Brecon and Radnorshire
St. Mary	Powys	1,872	Brecon and Radnorshire
Talgarth	Powys	1,308	Brecon and Radnorshire
Cymuned Talgarth	Powys	1,552	Brecon and Radnorshire
Tawe-Uchaf	Powys	1,726	Brecon and Radnorshire
Ynyscedwyn	Powys	1,746	Brecon and Radnorshire
Yscir	Powys	876	Brecon and Radnorshire
Ystradgynlais	Powys	2,001	Brecon and Radnorshire
Blaen Hafren	Powys	1,880	Montgomeryshire
Caersws	Powys	1,835	Montgomeryshire
Yr Ystog	Powys	1,260	Montgomeryshire
Dolforwyn	Powys	1,590	Montgomeryshire
Glantwymyn	Powys	1,624	Montgomeryshire
Ceri	Powys	1,610	Montgomeryshire
Llanbrynmair	Powys	761	Montgomeryshire
Llandinam	Powys	1,120	Montgomeryshire
Llanidloes	Powys	2,222	Montgomeryshire
Machynlleth	Powys	1,654	Montgomeryshire
Trefaldwyn	Powys	1,078	Montgomeryshire
Canol y Drenewydd	Powys	2,177	Montgomeryshire
Dwyrain y Drenewydd	Powys	1,449	Montgomeryshire
Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaiarn	Powys	1,742	Montgomeryshire

Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaiarn	Powys	1,361	Montgomeryshire
De y Drenewydd	Powys	1,261	Montgomeryshire
Rhiwcynon	Powys	1,708	Montgomeryshire

Bridgend CC – 73,596 o etholwyr (Pen-y-bont ar Ogwr – PBO)

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Bracla	PBO	8,208	Bridgend
Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr	PBO	6,057	Bridgend
Cefn Glas	PBO	1,247	Bridgend
Coety	PBO	603	Bridgend
Corneli	PBO	5,082	Bridgend
Llangrallo Isaf	PBO	1,134	Bridgend
Litchard	PBO	1,798	Bridgend
Llangewydd a Brynhyfryd	PBO	1,949	Bridgend
Morfa	PBO	3,278	Bridgend
Y Castellnewydd	PBO	4,221	Bridgend
Newton	PBO	2,921	Bridgend
Notais	PBO	2,764	Bridgend
Yr Hengastell	PBO	3,589	Bridgend
Pendre	PBO	1,345	Bridgend
Pen-y-fai	PBO	1,893	Bridgend
Canol Dwyrain Porthcawl	PBO	2,591	Bridgend
Canol Gorllewin Porthcawl	PBO	2,788	Bridgend
Y Pîl	PBO	5,510	Bridgend
Rest Bay	PBO	1,958	Bridgend
Abercynffig	PBO	1,485	Ogmore
Bryncethin	PBO	994	Ogmore
Bryncoch	PBO	1,495	Ogmore
Cefn Cribwr	PBO	1,194	Ogmore
Felindre	PBO	2,153	Ogmore
Hendre	PBO	3,064	Ogmore
Penprysg	PBO	2,426	Ogmore
Sarn	PBO	1,849	Ogmore

Caerfyrddin CC – 73,937 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Abergwili	Sir Gaerfyrddin	1,822	Carmarthen East and Dinefwr
Rhydaman	Sir Gaerfyrddin	1,907	Carmarthen East and Dinefwr
Betws	Sir Gaerfyrddin	1,616	Carmarthen East and Dinefwr
Cilycwm	Sir Gaerfyrddin	1,155	Carmarthen East and Dinefwr
Cynwyl Gaeo	Sir Gaerfyrddin	1,306	Carmarthen East and Dinefwr
Garnant	Sir Gaerfyrddin	1,535	Carmarthen East

			and Dinefwr
Glanaman	Sir Gaerfyrddin	1,785	Carmarthen East and Dinefwr
Gorslas	Sir Gaerfyrddin	3,160	Carmarthen East and Dinefwr
Llanddarog	Sir Gaerfyrddin	1,565	Carmarthen East and Dinefwr
Llandeilo	Sir Gaerfyrddin	2,262	Carmarthen East and Dinefwr
Llanymddyfri	Sir Gaerfyrddin	2,082	Carmarthen East and Dinefwr
Llandybie	Sir Gaerfyrddin	3,017	Carmarthen East and Dinefwr
Llanegwad	Sir Gaerfyrddin	1,949	Carmarthen East and Dinefwr
Llanfihangel Aberbythych	Sir Gaerfyrddin	1,435	Carmarthen East and Dinefwr
Llanfihangel-ar-Arth	Sir Gaerfyrddin	2,155	Carmarthen East and Dinefwr
Llangadog	Sir Gaerfyrddin	1,547	Carmarthen East and Dinefwr
Llangynnwr	Sir Gaerfyrddin	1,895	Carmarthen East and Dinefwr
Llangyndeyrn	Sir Gaerfyrddin	2,401	Carmarthen East and Dinefwr
Llanybydder	Sir Gaerfyrddin	1,932	Carmarthen East and Dinefwr
Manordeilo a Salem	Sir Gaerfyrddin	1,765	Carmarthen East and Dinefwr
Penygroes	Sir Gaerfyrddin	2,134	Carmarthen East and Dinefwr
Pontaman	Sir Gaerfyrddin	2,123	Carmarthen East and Dinefwr
Cwarter Bach	Sir Gaerfyrddin	2,156	Carmarthen East and Dinefwr
Saron	Sir Gaerfyrddin	3,096	Carmarthen East and Dinefwr
Llanismel	Sir Gaerfyrddin	2,168	Carmarthen East and Dinefwr
Tref Caerfyrddin Gogledd	Sir Gaerfyrddin	3,800	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Tref Caerfyrddin De	Sir Gaerfyrddin	2,791	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Tref Caerfyrddin Gorllewin	Sir Gaerfyrddin	3,681	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Cynwyl Elfed	Sir Gaerfyrddin	2,471	Carmarthen West and South

			Pembrokeshire
Maestref Talacharn	Sir Gaerfyrddin	2,236	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Llanboidy	Sir Gaerfyrddin	1,606	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Llansteffan	Sir Gaerfyrddin	1,676	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Sanclêr	Sir Gaerfyrddin	2,312	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Trelech	Sir Gaerfyrddin	1,700	Carmarthen West and South Pembrokeshire
Hendy-gwyn-ar daf	Sir Gaerfyrddin	1,696	Carmarthen West and South Pembrokeshire

Caerphilly CC – 75,461 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Cwm Aber	Caerffili	4,510	Caerphilly
Bedwas, Trethomas a Machen	Caerffili	7,630	Caerphilly
Morgan Jones	Caerffili	4,909	Caerphilly
Hengoed	Caerffili	3,671	Caerphilly
Llanbradach	Caerffili	3,171	Caerphilly
Nelson	Caerffili	3,482	Caerphilly
Penyrheol	Caerffili	8,777	Caerphilly
St. Cattwg	Caerffili	5,586	Caerphilly
St. James	Caerffili	4,153	Caerphilly
St. Martins	Caerffili	6,335	Caerphilly
Ystrad Mynach	Caerffili	3,553	Caerphilly
Abercarn	Caerffili	3,881	Islwyn
Crosskeys	Caerffili	2,445	Islwyn
Maesycwmmmer	Caerffili	1,707	Islwyn
Pengam	Caerffili	2,681	Islwyn
Pontllanfraith	Caerffili	6,159	Islwyn
Ynysddu	Caerffili	2,811	Islwyn

Cardiff Central BC – 72,901 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Cathays	Caerdydd	14,857	Cardiff Central
Cyncoed	Caerdydd	8,660	Cardiff Central
Pentwyn	Caerdydd	10,363	Cardiff Central
Penylan	Caerdydd	9,801	Cardiff Central
Plasnewydd	Caerdydd	12,807	Cardiff Central
Gabalfa	Caerdydd	6,699	Cardiff North

Y Mynydd Bychan	Caerdydd	9,714	Cardiff North
-----------------	----------	-------	---------------

Cardiff North and West Gwent CC – 73,142 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Dwyrain Rhisga	Caerffili	4,643	Islwyn
Gorllewin Rhisga	Caerffili	3,988	Islwyn
Llysfalen	Caerdydd	2,839	Cardiff North
Llanisien	Caerdydd	12,945	Cardiff North
Pontprennau / Yr Hen Laneirwg	Caerdydd	6,956	Cardiff North
Rhiwbeina	Caerdydd	9,103	Cardiff North
Yr Eglwys Newydd Tongwynlais	Caerdydd	12,672	Cardiff North
Y Graig	Casnewydd	4,620	Newport West
Maerun	Casnewydd	4,611	Newport West
Tŷ-du	Casnewydd	7,843	Newport West
Parc Tredegar	Casnewydd	2,922	Newport West

Cardiff South and Penarth BC – 75,776 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Adamsdown	Caerdydd	5,730	Cardiff Central
Butetown	Caerdydd	6,277	Cardiff South and Penarth
Grangetown	Caerdydd	12,097	Cardiff South and Penarth
Llanrhymini	Caerdydd	7,788	Cardiff South and Penarth
Tredelerch	Caerdydd	6,199	Cardiff South and Penarth
Y Sblot	Caerdydd	9,012	Cardiff South and Penarth
Trowbridge	Caerdydd	10,794	Cardiff South and Penarth
Cornerswell	Bro Morgannwg	3,955	Cardiff South and Penarth
Llandochoau	Bro Morgannwg	1,488	Cardiff South and Penarth
Plymouth	Bro Morgannwg	4,526	Cardiff South and Penarth
St. Augustine's	Bro Morgannwg	4,696	Cardiff South and Penarth
Stanwell	Bro Morgannwg	3,214	Cardiff South and Penarth

Cardiff West BC – 74,844 o etholwyr (Rhondda Cynon Taf – RhCT)

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Ystum Taf	Caerdydd	5,449	Cardiff North
Caerau	Caerdydd	7,242	Cardiff West
Treganna	Caerdydd	10,124	Cardiff West

Creigiau/Sain Ffagan	Caerdydd	3,947	Cardiff West
Trelai	Caerdydd	9,172	Cardiff West
Y Tyllgoed	Caerdydd	9,251	Cardiff West
Llandaf	Caerdydd	7,216	Cardiff West
Pentyrch	Caerdydd	2,728	Cardiff West
Radyr	Caerdydd	4,845	Cardiff West
Riverside	Caerdydd	8,835	Cardiff West
Pont-y-clun	RhCT	6,035	Pontypridd

Ceredigion and North Pembrokeshire CC – 74,377 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Cenarth	Sir Gaerfyrddin	1,705	Carmarthen East and Dinefwr
Llangeler	Sir Gaerfyrddin	2,612	Carmarthen East and Dinefwr
Aberaeron	Ceredigion	1,117	Ceredigion
Aberporth	Ceredigion	1,808	Ceredigion
Aberteifi/Cardigan - Mwldan	Ceredigion	1,367	Ceredigion
Aberteifi/Cardigan - Rhyd-y-Fuwch	Ceredigion	854	Ceredigion
Aberteifi/Cardigan - Teifi	Ceredigion	674	Ceredigion
Aberystwyth Bronglais	Ceredigion	1,700	Ceredigion
Aberystwyth Canol/Central	Ceredigion	1,161	Ceredigion
Aberystwyth Gogledd/North	Ceredigion	1,986	Ceredigion
Aberystwyth Penparcau	Ceredigion	2,219	Ceredigion
Aberystwyth Rheidol	Ceredigion	1,623	Ceredigion
Beulah	Ceredigion	1,298	Ceredigion
Y Borth	Ceredigion	1,542	Ceredigion
Capel Dewi	Ceredigion	1,041	Ceredigion
Ceulan-a-Maesmor	Ceredigion	1,439	Ceredigion
Ciliau Aeron	Ceredigion	1,484	Ceredigion
Faenor	Ceredigion	2,116	Ceredigion
Llanbedr Pont Steffan	Ceredigion	2,117	Ceredigion
Llanarth	Ceredigion	1,154	Ceredigion
Llanbadarn Fawr - Padarn	Ceredigion	783	Ceredigion
Llanbadarn Fawr - Sulien	Ceredigion	1,720	Ceredigion
Llandyfriog	Ceredigion	1,373	Ceredigion
Llandysiliogogo	Ceredigion	1,482	Ceredigion
Tref Llandysul	Ceredigion	1,051	Ceredigion
Llanfarian	Ceredigion	1,112	Ceredigion
Llanfihangel Ystrad	Ceredigion	1,533	Ceredigion
Llangeitho	Ceredigion	1,137	Ceredigion
Llangybi	Ceredigion	1,134	Ceredigion
Llanrhystyd	Ceredigion	1,192	Ceredigion
Llansanffraid	Ceredigion	1,874	Ceredigion
Llanwenog	Ceredigion	1,329	Ceredigion
Lledrod	Ceredigion	1,669	Ceredigion
Melindwr	Ceredigion	1,500	Ceredigion
Ceinewydd	Ceredigion	836	Ceredigion

Penbryn	Ceredigion	1,677	Ceredigion
Pen-parc	Ceredigion	1,841	Ceredigion
Tirymynach	Ceredigion	1,368	Ceredigion
Trefeurig	Ceredigion	1,297	Ceredigion
Tregaron	Ceredigion	908	Ceredigion
Troed-yr-aur	Ceredigion	1,001	Ceredigion
Ystwyth	Ceredigion	1,489	Ceredigion
Cilgerran	Sir Benfro	1,577	Preseli Pembrokeshire
Clydau	Sir Benfro	1,170	Preseli Pembrokeshire
Crymych	Sir Benfro	1,936	Preseli Pembrokeshire
Dinas Cross	Sir Benfro	1,322	Preseli Pembrokeshire
Gogledd Ddwyrain Abergwaun	Sir Benfro	1,481	Preseli Pembrokeshire
Gogledd Orllewin Abergwaun	Sir Benfro	1,206	Preseli Pembrokeshire
Wdig	Sir Benfro	1,512	Preseli Pembrokeshire
Trefdraeth	Sir Benfro	942	Preseli Pembrokeshire
Scleddau	Sir Benfro	1,153	Preseli Pembrokeshire
Llandudoch	Sir Benfro	1,755	Preseli Pembrokeshire

Conwy and Colwyn CC – 73,983 o etholwyr

Adran Etholiadol	Awdurdod Unedol	Etholwyr	Etholaeth Bresennol
Caerhun	Conwy	1,686	Aberconwy
Conwy	Conwy	3,386	Aberconwy
Craig-y-Don	Conwy	2,797	Aberconwy
Deganwy	Conwy	3,344	Aberconwy
Gogarth	Conwy	3,001	Aberconwy
